WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Gan gynnwys yr Adroddiad Asesu Corfforaethol 2014

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyhoeddwyd: Tachwedd 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 628A2014



Paratowyd yr Adroddiad Asesu Corfforaethol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry a Samantha Spruce o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar warchod adnoddau cyhoeddus a, thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno ac argymhellion 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi bod yn cyflawni ei flaenoriaethau allweddol ond mae cyfyngiadau o ran trefniadau llywodraethu a gwaith gwerthuso perfformiad yn golygu bod risg na fydd yn gallu parhau i wneud cynnydd yn y dyfodol 9

Mae'r Cyngor wedi nodi gweledigaeth glir sy'n llywio penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau 10

Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â gwendidau mewn trefniadau llywodraethu ac yn gwella tryloywder prosesau gwneud penderfyniadau 12

Mae'r Cyngor yn gwneud gwelliannau yn ei feysydd â blaenoriaeth ond nid yw'n gwerthuso pa mor effeithlon y mae'n gwneud hynny 18

Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni targedau arbedion cyffredinol, ond mae pwysau ariannol cynnar yn golygu bod risg na fydd yn gallu cyflawni arbedion arfaethedig yn y dyfodol 25

Mae gan y Cyngor weledigaeth strategol glir ar gyfer ei swyddogaeth adnoddau dynol ond nid oes ganddo'r trefniadau ategol sydd eu hangen er mwyn sicrhau y caiff ei gwireddu 28

Mae trefniadau rheoli asedau yn cefnogi gwelliant 30

Nid yw effaith llai o adnoddau ar gyfer technoleg gwybodaeth wedi'i hasesu ac mae gwendidau mewn trefniadau rheoli gwybodaeth yn peri risg i enw da'r Cyngor 33

Mae'r Cyngor yn cydweithredu ag amrywiaeth o bartneriaid er mwyn sicrhau gwelliant a chynnal gwasanaethau ond nid oes ganddo ddull cyson o werthuso'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni 37

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 41

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 42

Atodiad 3 – Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 45

Atodiad 4 – Tystysgrifau cydymffurfiaeth 46

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gwnaed y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, noda'r adroddiad gasgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran p'un a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gylch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol o fewn awdurdodau gwella yng Nghymru. Golyga hyn, yn ogystal â rhaglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o ddulliau cynghorau o gynllunio gwelliant ac adrodd ar welliant, y bydd pob awdurdod yn cael asesiad corfforaethol manwl unwaith yn ystod cyfnod o bedair blynedd. Yn y blynyddoedd rhwng asesiadau, byddwn yn monitro datblygiadau drwy ddiweddariadau ar gynnydd.

3 Canolbwyntiodd ein gwaith maes ar gyfer yr asesiad corfforaethol ar y graddau y mae trefniadau yn helpu i wella perfformiad gwasanaethau a chanlyniadau i ddinasyddion. Ceisiodd yr asesiad corfforaethol ateb y cwestiwn canlynol:

**'A all y Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau a gwella canlyniadau i ddinasyddion?'**

4 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

5 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Crynodeb

6 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru; ac mae hefyd yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â dull y Cyngor o ddarparu gwasanaethau, gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13, a chynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14. Gan ystyried hyn, mae'r adroddiad yn cofnodi casgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran p'un a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

7 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad canlynol: **Mae'r Cyngor wedi bod yn cyflawni ei flaenoriaethau allweddol ond mae cyfyngiadau o ran trefniadau llywodraethu a gwaith gwerthuso perfformiad yn golygu bod risg na fydd yn gallu parhau i wneud cynnydd yn y dyfodol**. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi nodi gweledigaeth glir sy'n llywio penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau;
- mae'n mynd i'r afael â gwendidau mewn trefniadau llywodraethu ac yn gwella tryloywder prosesau gwneud penderfyniadau;
- mae'n gwneud gwelliannau yn ei feysydd â blaenoriaeth ond nid yw'n gwerthuso pa mor effeithlon y mae'n gwneud hynny;
- mae ganddo hanes o gyflawni targedau arbedion cyffredinol, ond mae pwysau ariannol cynnar yn golygu bod risg na fydd yn cyflawni arbedion arfaethedig yn y dyfodol;
- mae ganddo weledigaeth strategol glir ar gyfer ei swyddogaeth adnoddau dynol ond nid oes ganddo'r trefniadau ategol sydd eu hangen er mwyn sicrhau y caiff ei gwireddu;
- mae ganddo drefniadau rheoli asedau ar waith sy'n cefnogi gwelliant;
- nid yw wedi asesu effaith llai o adnoddau ar gyfer technoleg gwybodaeth ac mae gwendidau mewn trefniadau rheoli gwybodaeth yn peri risg i enw da'r Cyngor; ac
- mae'n cydweithredu ag amrywiaeth o bartneriaid er mwyn sicrhau gwelliant a chynnal gwasanaethau ond nid oes ganddo ddull cyson o werthuso'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni.

## Cynigion ar gyfer Gwella

| Llywodraethu | |
|---|---|
| **C1** | Sefydlu rhaglen hyfforddi sgiliau sy'n helpu aelodau i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol.<br>Cyflwyno system ffurfiol o arfarnu rolau aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu sgiliau. |
| **C2** | Adolygu trefniadau craffu er mwyn sefydlu amrywiaeth mwy cytbwys o weithgarwch craffu, llunio blaenraglen i'w gwneud yn bosibl i gynllunio a chydgysylltu gweithgarwch a rhoi terfyn ar arferion llafarus nad ydynt yn cael effaith. |
| **C3** | Darparu gwybodaeth gynhwysfawr a hygyrch am y busnes a gynhelir gan y Cyngor. |
| **C4** | Gwella trefniadau chwythu'r chwiban drwy wneud y canlynol:<br>• egluro'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau;<br>• dwyn ynghyd y wybodaeth a ddelir mewn dogfennau gwahanol ar hyn o bryd; a<br>• rhoi mwy o wybodaeth am fesurau diogelu y bydd y Cyngor yn eu darparu i gyflogeion o dan y trefniadau. |

| Rheoli Perfformiad | |
|---|---|
| **C5** | Sicrhau bod disgwyliadau o ran cyflawni rhaglenni yn seiliedig ar asesiad realistig o'r adnoddau sydd ar gael – yn arbennig yn y rhaglen Trawsffurfio Gofal Cymdeithasol Oedolion a'r rhaglen Adfywio. |
| **C6** | Canolbwyntio ar ysgolion sy'n perfformio'n waeth er mwyn ysgogi a chynnal gwelliannau gan ystyried y lefelau o berfformiad a ddisgwylir gan ysgolion yng Nghymru sydd â lefelau tebyg o amddifadedd. |
| **C7** | Rhoi trefniadau arfaethedig ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad ar waith er mwyn dwyn ynghyd wybodaeth mewn ffordd sy'n galluogi'r Cyngor i werthuso a yw'n gwneud defnydd effeithiol o'i adnoddau.<br><br>Cyflwyno trefniadau ar gyfer adolygu perfformiad sy'n ei gwneud yn bosibl i werthuso cyfraniad asiantaethau masnachu mewnol at gyflawni amcanion y Cyngor. |

| Cynllunio Ariannol | |
|---|---|
| **C8** | Gwella prosesau cynllunio a monitro ariannol drwy gyfuno gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad yn fwy effeithiol, gan atgyfnerthu'n benodol y cysylltiadau rhwng y Blaenraglen Ariannol a Chynlluniau Busnes. |
| **C9** | Egluro'r polisi corfforaethol ar gynhyrchu incwm a chodi tâl er mwyn sicrhau dull cyson o ymdrin â chonsensiynau a grwpiau targed. |
| **C10** | Gwella'r modd y caiff gwybodaeth ariannol ei chofnodi er mwyn helpu i ddeall y canlynol:<br>• goblygiadau cynlluniau arbedion a phwysau ychwanegol ar yr amrywiaeth o wasanaethau a'u hansawdd, yn arbennig y gwasanaethau hynny sy'n cefnogi blaenoriaethau gwella; a'r<br>• cysylltiadau rhwng adroddiadau cyllidebol a'r Flaenraglen Ariannol er mwyn esbonio'r effaith ar y targed arbedion a'r asesiad risg. |
| **C11** | Adolygu'r Cyfarwyddiadau Cyfrifyddu a'r Rheoliadau Ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r arferion gwaith diweddaraf a pholisïau diweddaraf y Cyngor ac yn cyfleu gofynion i'r staff. |

| Adnoddau Dynol | |
|---|---|
| **C12** | Sicrhau y caiff proses arfarnu sy'n sicrhau bod staff yn gymwys i wneud eu gwaith ac sy'n ei gwneud yn bosibl i bobl gael eu dwyn i gyfrif ei mabwysiadu'n llawn erbyn mis Rhagfyr 2015.<br>Rhoi proses sefydlu ar waith a sicrhau y caiff aelodau newydd o staff eu briffio ynghylch disgwyliadau corfforaethol.<br>Sefydlu Cynllun Gweithlu. |

| Rheoli Asedau | |
|---|---|
| **C13** | Diweddaru'r Cynllun Rheoli Asedau fel ei fod yn gweithredu fel pwynt cyfeirio am y pum mlynedd nesaf ac yn cyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau cyfredol a nodir yng Nghynllun Gwella Corfforaethol y Cyngor. |
| **C14** | Sicrhau y caiff ystyriaeth o waith rheoli asedau ei chynnwys yng Nghynlluniau Busnes Gwasanaethau. |
| **C15** | Ffurfioli'r trefniadau ar gyfer y Gweithgor Rheoli Asedau Strategol drwy wneud y canlynol:<br>• llunio cylch gorchwyl a nodi arferion gwaith corfforaethol disgwyliedig (yn seiliedig ar arfer presennol); a<br>• llunio rhaglen waith flynyddol ddangosol a gwneud nodiadau o benderfyniadau a wnaed gan y Grŵp. |

| Technoleg Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth | |
|---|---|
| **C16** | Sicrhau bod y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau sy'n deillio o'r ffaith bod llai o adnoddau staff. |
| **C17** | Llunio'r fersiwn terfynol o Strategaeth Gwybodaeth y Cyngor a'i gyfleu i bob aelod o staff. |
| **C18** | Rhoi adroddiad blynyddol ar faterion sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth a llywodraethu gwybodaeth i'r aelodau er mwyn eu galluogi i werthuso perfformiad ac effeithiolrwydd trefniadau. |

| Cydweithredu | |
|---|---|
| **C19** | Gweithio gyda phartneriaid allweddol er mwyn sefydlu rhaglen i feithrin gallu cymunedol er mwyn cefnogi dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau. |
| **C20** | Datblygu trefniadau cyflwyno adroddiadau ymhellach fel y gellir gwerthuso effeithiolrwydd a chynaliadwyedd gweithgarwch cydweithredol. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi bod yn cyflawni ei flaenoriaethau allweddol ond mae cyfyngiadau o ran trefniadau llywodraethu a gwaith gwerthuso perfformiad yn golygu bod risg na fydd yn gallu parhau i wneud cynnydd yn y dyfodol



## Mae'r Cyngor wedi nodi gweledigaeth glir sy'n llywio penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau

8 Cyhoeddodd y Cyngor a'i 12 o bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) *Castell-nedd Port Talbot yn Gweithio mewn Partneriaeth, Cynllun Integredig Sengl*, ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r Cynllun yn nodi uchelgeisiau partneriaid lleol i wella ansawdd bywyd pobl leol rhwng 2013 a 2023. Mae'r Cynllun Integredig Sengl yn cyflwyno'r weledigaeth a rennir o greu Castell-nedd Port Talbot lle 'mae gan bawb gyfle cyfartal i fod yn iachach, yn hapusach, yn fwy diogel a ffyniannus'. Mae'r weledigaeth hon yn glir, ond hefyd yn eang. Felly, yng nghyd-destun adnoddau cyfyngedig, mae blaenoriaethau wedi'u mabwysiadu gan y bartneriaeth. Mae meysydd penodol o angen yn deillio o'r canlynol:

- 17 o ardaloedd o fewn Castell-nedd Port Talbot sydd ymhlith y 10 y cant uchaf o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru a phedair ardal glwstwr Cymunedau yn Gyntaf;
- mae 25 y cant o'r bobl hynny o oedran gweithio yn hawlio budd-daliadau o gymharu â 14.7 y cant ar gyfartaledd ar gyfer Cymru;
- y bedwaredd gyfradd uchaf o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru; ac
- amrywiaeth eang o ddangosyddion iechyd gwael o'i gymharu â gweddill Cymru ynghyd â'r gyfran uchaf o ofalwyr di-dâl ledled Cymru.

9 Mae'r Cynllun Integredig Sengl yn nodi pedwar maes gweithgarwch allweddol lle y bydd partneriaid yn cydweithio er mwyn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn cyflawni eu potensial;
- mynd i'r afael â thlodi drwy gefnogi teuluoedd ar incwm isel;
- mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd; a
- gwella trafnidiaeth.

10 Mae'r Cynllun Integredig Sengl yn disgrifio'r camau gweithredu penodol a gynigir ar gyfer pob un o'r themâu hyn ac yn nodi y caiff adroddiad blynyddol ei lunio sy'n esbonio'r cynnydd a wnaed yn y flwyddyn flaenorol. Cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar gyfer 2013-14 yn 2014 a disgrifiodd amrywiaeth o gamau gweithredu a gwblhawyd a'r camau nesaf angenrheidiol. Mae'r BGLl wedi cydnabod bod angen datblygu fframwaith adrodd sy'n nodi canlyniadau camau gweithredu yn gliriach.

11 Mae Cynllun Gwella Corfforaethol y Cyngor ei hun ar gyfer 2014-2017 yn esbonio'r blaenoriaethau (amcanion gwella) y mae'r Cyngor wedi'u mabwysiadu er mwyn diwallu anghenion lleol. Mae'n nodi'r her sy'n ei wynebu o ganlyniad i leihad sylweddol yn yr adnoddau ariannol a fydd ganddo yn y dyfodol. Nodir chwe amcan gwella'r Cyngor sy'n cwmpasu'r pethau y byddem yn disgwyl i'r Cyngor fod yn rhoi sylw iddynt, o ystyried anghenion lleol a'r ffaith bod angen iddo fod yn fwy effeithlon o ran y ffordd y mae'n gweithredu o ganlyniad i'r lleihad mewn adnoddau ariannol sy'n wynebu pob cyngor.

12 Gan nad oedd yn ymarferol cyfarfod â phob cynghorydd a rheolwr gwnaethom gynnal arolwg gan wahodd ymatebion gan bob un o'r 64 o aelodau'r Cyngor a'r 111 o uwch reolwyr. Gofynnodd yr arolwg am sylwadau ar ba mor dda roedd y trefniadau rheoli yn gweithio; pa mor dda roedd pobl yn deall eu cyfrifoldebau ac yn cael eu dwyn i gyfrif am eu cyflawni a pha mor dda roeddent yn deall yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor. Cafwyd cyfradd ymateb o 57 y cant ymhlith aelodau ac ymatebodd 71 y cant o'r rheolwyr. Roedd pob aelod a ymatebodd yn cytuno ei fod yn glir ynghylch yr hyn yr oedd y Cyngor yn ceisio ei gyflawni, yn ogystal â phob un o'r rheolwyr a ymatebodd ond un. Roedd y rhan fwyaf o'r uwch reolwyr a ymatebodd yn o'r farn bod cyflawni canlyniadau dymunol wedi'i integreiddio'n dda mewn gwaith cynllunio gwasanaethau.

## Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â gwendidau mewn trefniadau llywodraethu ac yn gwella tryloywder prosesau gwneud penderfyniadau

13. Dylai llywodraethu da arwain at reoli da, perfformiad da, gwarchod arian cyhoeddus yn dda, cyswllt da â'r cyhoedd ac, yn y pen draw, ganlyniadau da (The Good Governance Standard for Public Services, OPM a CIPFA, 2005). Mae trefniadau llywodraethu da yn darparu fframwaith atebolrwydd i ddefnyddwyr, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach, ac o fewn y fframwaith hwnnw mae sefydliadau yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflawni amcanion penodol.

### Mae'r Cyngor yn gweithredu rhaglen i fynd i'r afael â gwendidau yn ei drefniadau llywodraethu

14 Yn 2013 dechreuodd y Cyngor adolygu ei drefniadau democrataidd, am fod yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn cydnabod bod angen moderneiddio'r trefniadau llywodraethu. Hysbyswyd Grŵp Moderneiddio'r Cyngor am ganlyniad yr adolygiad ar 25 Ebrill 2014 ac fe'i mabwysiadwyd gan y Cyngor ar 2 Gorffennaf 2014. I grynhoi, nododd yr adroddiad fod angen moderneiddio nifer o agweddau ar lywodraethu drwy wneud y canlynol:

- sicrhau y caiff blaenraglenni gwaith ar gyfer y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu eu llunio;
- sefydlu rhaglen gytbwys o weithgarwch craffu er mwyn symud o'r trefniadau presennol lle mae'r rhan fwyaf o'r amser yn cael ei dreulio yn gwneud gwaith craffu cyn gwneud penderfyniadau;
- atgyfnerthu goruchwyliaeth aelodau o bartneriaethau a gweithgarwch cydweithredol arall;
- cydgysylltu cyfleoedd datblygu aelodau yn well, gan eu cysoni â blaenraglenni gwaith a gwella'r rhan a chwaraeir gan yr aelodau yn y gwaith o sefydlu'r rhaglen datblygu aelodau; a
- gwella systemau a'r dechnoleg sydd ar gael i wella effeithlonrwydd.

15. Yn ystod 2014 mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi bod yn rhoi ystyriaeth bellach i wella'r ffyrdd y gellir diwallu anghenion datblygu'r aelodau. Ochr yn ochr â'r broses hon, mae Pwyllgorau Craffu wedi dechrau datblygu rhaglenni gwaith mwy cytbwys. Pe baent yn cael eu cyflawni'n effeithiol, gallai'r gweithgareddau hyn ddatrys llawer o'r gwendidau rydym yn eu disgrifio yn y paragraffau canlynol.

### Er bod y rolau'n glir, nid yw'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod pobl yn gymwys i gyflawni eu rolau, ac ar gyfer eu dwyn i gyfrif, wedi'u datblygu'n llawn

16 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi rolau a swyddogaethau pwyllgorau ac unigolion a dywedodd y rhan fwyaf o'r aelodau a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau fel cynghorydd. Nododd ein harolwg gryfderau penodol yn gysylltiedig â'r ffaith bod yr aelodau yn gallu cael gafael ar wybodaeth wrth gyflawni eu rolau ar ran eu hetholwyr ond bod rhywfaint o rwystredigaeth ymhlith aelodau nad oeddent yn aelodau o'r Cabinet ynghylch y

rôl y gallent ei chwarae o ran helpu i lywodraethu'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen atgyfnerthu rolau craffu ac mae'n ystyried bod ei gynigion i adeiladu 'timau' o aelodau o amgylch portffolios y Cabinet yn gyfle i ehangu gweithgarwch ymgysylltu â phob aelod, gan feithrin eu dealltwriaeth o weithgarwch ar lefel y Cabinet. Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau yn cytuno eu bod yn glir ynghylch rolau'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr - er i rai ddweud nad oeddent yn glir yn eu cylch.

17 Er bod deiliaid portffolios y Cabinet yn glir ynghylch meysydd cyfrifoldeb, dangosodd aelodau unigol o'r Cabinet eu hatebolrwydd mewn gwahanol ffyrdd. Mewn cyfarfodydd ffurfiol, mae uwch swyddogion yn chwarae rôl flaenllaw wrth gyflwyno adroddiadau ac ymateb i gwestiynau craffu. Mae hyn yn wahanol i'r hyn a welsom mewn cynghorau eraill lle mae aelodau'r Cabinet yn cyflwyno adroddiadau ac yn ymateb i gwestiynau craffu gan aelodau eraill – gan ddangos eu cyfrifoldeb a'u hatebolrwydd yn glir ac yn gyhoeddus. Er bod Aelodau'r Cabinet yng Nghastell-nedd Port Talbot yn mynd i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y pwyllgorau craffu nid ydynt yn cael eu holi am bolisïau, penderfyniadau a pherfformiad gwasanaethau fel mater o drefn ac, yn lle hynny, maent yn mynd i gyfarfodydd i'w harsylwi gan amlaf. Nid yw hwn yn arfer da.

18 Caiff penderfyniadau penodol eu dirprwyo i Fyrddau'r Cabinet, sy'n cynnwys dau aelod y mae eu portffolios yn cael budd o gydweithio. Mae wedi dod yn arfer i aelod o un o Fyrddau'r Cabinet, os na all fynd i gyfarfod penodol, ddod o hyd i ddirprwy. Er nad yw hyn yn digwydd yn rheolaidd mae'n pylu atebolrwydd am wneud penderfyniadau.

19 Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau a ymatebodd i'n harolwg o'r farn bod y sgiliau a'r wybodaeth yr oedd eu hangen arnynt fel cynghorydd wedi'u datblygu'n briodol. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â chanlyniadau adolygiad y Cyngor ei hun y bydd y Cyngor, drwy ddatblygu sgiliau a gwybodaeth aelodau ymhellach, yn sicrhau ei fod mewn gwell sefyllfa ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu disgrifiadau rôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar gyfer aelodau, ac mae rhai aelodau wedi'u hyfforddi'n arfarnwyr. Mae adolygiad datblygu wedi'i gynnig i bob aelod o'r Cyngor ond prin yw'r aelodau sydd wedi manteisio ar y cyfle. Mae gweithgarwch hyfforddi a datblygu ar gyfer cynghorwyr wedi cynnwys seminarau mewnol yn bennaf, lle mae lefelau presenoldeb wedi amrywio. At hynny, nid oes unrhyw drefniadau i sicrhau y caiff aelodau a enwebir gan y Cyngor i fod yn aelodau o gyrff allanol, er enghraifft, fel aelodau neu ymddiriedolwyr byrddau, eu briffio am eu rolau a'u cyfrifoldebau cyn dechrau yn eu swyddi.

20 Roedd y rhan fwyaf o'r uwch reolwyr a ymatebodd i'n harolwg o'r farn eu bod yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, roedd mwy na chwarter o'r farn nad oedd y broses arfarnu ffurfiol yn helpu i sicrhau bod rheolwyr neu eu timau yn gymwys i wneud eu gwaith. Mae proses arfarnu newydd wedi'i chyflwyno, gan ddechrau gyda'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau, a allai wella atebolrwydd am berfformiad.

## Mae trefniadau craffu yn aneffeithlon ac yn canolbwyntio ar waith craffu cyn gwneud penderfyniadau ac ychydig o waith craffu a wneir o ran perfformiad a gwelliant

21 Roedd tua dau o bob tri o'r aelodau a ymatebodd i'n harolwg o'r farn bod prosesau craffu yn effeithiol o ran gwella canlyniadau. Roeddent hefyd o'r farn bod trefniadau eraill er mwyn i'r rhai nad oeddent yn aelodau o'r Cabinet herio polisi neu ddylanwadu arno yn effeithiol. Roedd 11 o'r 79 o swyddogion a ymatebodd i'r arolwg o'r farn nad oedd gweithgarwch craffu yn effeithiol ond, ac efallai bod hyn yn fwy arwyddocaol, dywedodd 12 o swyddogion a ymatebodd i'r arolwg nad oeddent yn gwybod a oedd yn effeithiol. Fodd bynnag, prin y gwelsom dystiolaeth o effaith gweithgarwch craffu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Disgrifir cyfyngiadau o ran y trefniadau cyfredol yn y paragraffau canlynol.

22 Mae'r Cyngor yn nodi amrywiaeth o swyddogaethau craffu a rolau penodol ar gyfer pwyllgorau craffu, megis gwaith craffu cyn ac ar ôl gwneud penderfyniadau, craffu ar gyrff allanol, craffu ar berfformiad y pwyllgor gweithredol a chynnal adolygiadau gwella, yn ei Gyfansoddiad.

23 Wrth arsylwi cyfarfodydd ac adolygu cofnodion, gwelsom fod Pwyllgorau Craffu yn treulio gormod o amser yn gwneud gwaith craffu cyn gwneud penderfyniadau ac, o ganlyniad, nad oeddent yn treulio fawr ddim amser ar rai o'r rolau eraill a nodwyd uchod. Mae dadansoddiad y Cyngor ei hun wedi nodi bod anghydbwysedd o ran y rolau a gyflawnir gan bwyllgorau craffu. Mae wrthi'n sefydlu rhaglenni gwaith mwy cytbwys a fydd yn cynnwys edrych ar berfformiad (er enghraifft, rheoli absenoldeb) ac adolygiadau gwella. Ceir chwe adroddiad adolygu gwaith craffu ar wefan y Cyngor ond ni chynhaliwyd yr un ohonynt ers i'r Cyngor hwn gael ei ethol ym mis Mai 2012.

24 Bwriadwyd i'r broses a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer gwneud gwaith craffu cyn gwneud penderfyniadau gynnwys pwyllgorau craffu yn dewis eitemau o agendâu i fod yn destun gwaith craffu cyn gwneud penderfyniadau. Roedd wedi dod yn arfer i'r rhan fwyaf o bwyllgorau beidio â dewis eitemau yn benodol, ond i'r eitemau ar agenda cyfarfod craffu ddyblygu pob un o'r eitemau ar agenda cyfarfod dilynol y Cabinet neu un o Fyrddau'r Cabinet. Mewn achosion lle mae pwyllgorau yn dewis peidio â chraffu ar eitemau, fel arfer mae'r cofnodion yn nodi bod y pwyllgor yn cefnogi'r cynigion. Er bod rhai enghreifftiau o waith craffu cyn gwneud penderfyniadau yn arwain at newidiadau i benderfyniadau arfaethedig gwnaethom hefyd nodi bod nifer o eitemau arferol, yr ymddengys, sydd i'w penderfynu gan Fyrddau'r Cabinet, hefyd yn cael eu hystyried. Deallwn, ers tynnu sylw at hyn yn ystod ein gwaith maes, fod pob pwyllgor craffu yn dewis eitemau i fod yn destun gwaith craffu ac wedi rhoi'r gorau i'r arfer o ystyried pob eitem y bwriedir iddi gael ei hystyried gan Fyrddau'r Cabinet.

25 Drwy ymdrin â phob eitem ar yr agenda yn union cyn cyfarfod y Cabinet/un o Fyrddau'r Cabinet, nid oes fawr ddim amser i graffu arnynt yn fanwl na'u herio'n effeithiol ac nid esbonnir y rheswm dros 'graffu' ar rai eitemau sydd ar yr agenda. Er enghraifft, roedd dileu dyledion unigol a chaffael uned ddatodadwy ymhlith yr eitemau ar agenda un cyfarfod, sy'n rhan o'r broses gwneud penderfyniadau feunyddiol yn hytrach na bod yn faterion allweddol sy'n haeddu bod yn destun gwaith craffu gan un o Bwyllgorau'r Cyngor. Mae pwyllgorau hefyd yn cael adroddiadau er gwybodaeth, a cheir nifer o enghreifftiau o bwyllgorau yn 'nodi' adroddiadau yn hytrach na llunio casgliadau a/neu wneud argymhellion.

26 Ar wahân i'r ffocws presennol ar berfformiad Gwasanaethau Plant, bu'n anodd i aelodau roi enghreifftiau o herio ac adolygiadau gwella i ni. Yr enghreifftiau a nodwyd amlaf oedd adolygiad gwella a gwblhawyd ym mis Ebrill 2010, a edrychodd ar effaith alcohol ar iechyd oedolion, ac un a edrychodd ar weithgarwch ymgysylltu â'r gymuned a gwblhawyd ym mis Mawrth 2012. Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau am chwarae rôl fwy gweithredol mewn prosesau herio perfformiad ac adolygiadau gwella ond mae ein dadansoddiad wedi peri i ni ddod i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r amser yn cael ei neilltuo i weithgarwch craffu cyn gwneud penderfyniadau ar draul mathau eraill o weithgarwch craffu.

27 Mae'r arferion hyn wedi datblygu dros amser ac maent yn arwain at aneffeithlonrwydd, o ran yr amser a dreulir gan aelodau a swyddogion yn mynd i gyfarfodydd cyn craffu.

28 Mae lle i wella effeithlonrwydd trefniadau drwy sicrhau bod pwyllgorau craffu yn fwy gofalus wrth ddewis eitemau i fod yn destun gwaith craffu cyn gwneud penderfyniadau a thrwy ailystyried amseru cyfarfodydd a gynhelir yn union cyn y cyfarfodydd gwneud penderfyniadau.

## Mae'r trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban yn ddigonol

29 Mae trefniadau datgelu er budd y cyhoedd (neu 'chwythu'r chwiban') yn ddigonol, gyda rhywfaint o le i wella. Er nad oes gan y Cyngor unrhyw achosion o chwythu'r chwiban y rhoddwyd gwybod amdanynt ar hyn o bryd mae ganddo drefniadau mewnol digonol ar waith i dderbyn a chofnodi achosion pan fyddant yn codi. Fodd bynnag, mae'r trefniadau cyflwyno adroddiadau yn aneglur a dylid eu hegluro er mwyn dangos llinellau adrodd mewnol.

30 Mae gan y Cyngor ddogfen bolisi a dogfen gweithdrefnau ar wahân sydd, gyda'i gilydd, yn darparu fframwaith sylfaenol clir er mwyn i staff ac eraill godi materion sy'n ymwneud â datgelu er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, byddai angen i rywun a oedd am godi mater o dan y weithdrefn ddarllen y ddwy ddogfen er mwyn deall y trefniadau yn llawn. Dylai'r Cyngor gysoni'r wybodaeth hon.

31 Mae'n bwysig bod cyflogeion sydd am roi gwybod am faterion sydd er budd y cyhoedd o dan y trefniadau yn cael eu diogelu'n briodol. Yn hyn o beth, câi'r ddogfen bolisi a'r ddogfen gweithdrefnau eu hatgyfnerthu drwy roi mwy o wybodaeth am y mesurau diogelu y bydd y Cyngor yn eu darparu i gyflogeion o dan y trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban.

32 Prin iawn yw'r cyhoeddusrwydd mewnol a roddwyd i drefniadau'r Cyngor ar gyfer datgelu er budd y cyhoedd. Er enghraifft, byddai cyflogeion nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r ddogfen bolisi a'r ddogfen gweithdrefnau er mwyn rhoi gwybod am faterion sydd er budd y cyhoedd. Dylai'r Cyngor hefyd sicrhau y gall staff asiantaethau a chontractwyr weld y ddogfen bolisi a'r ddogfen gweithdrefnau a'u bod yn cael eu hysbysu am drefniadau'r Cyngor ar gyfer datgelu er budd y cyhoedd.

## Mae mynediad gwael i wybodaeth yn arwain at ddiffyg tryloywder ynghylch prosesau gwneud penderfyniadau

33 Roedd tua dau o bob tri o'r aelodau a ymatebodd i'n harolwg o'r farn ei bod yn hawdd cael gwybod pa benderfyniadau allweddol a oedd wedi'u gwneud – dywedodd tua thraean nad oedd yn hawdd gwneud hynny. Fe'n synnwyd gan yr ymateb cadarnhaol gan aelodau ynghylch hygyrchedd gwybodaeth. Gwnaethom chwilio am wybodaeth am gyfarfodydd a gynhaliwyd a phenderfyniadau a wnaed yn ddiweddar ar wefan y Cyngor – y ffordd y byddem yn disgwyl i lawer o ddinasyddion wneud hynny. Roedd yn arbennig o anodd i ni ddod o hyd i wybodaeth, yn benodol:

- Nid oedd unrhyw flaenraglenni gwaith ar gyfer y Cabinet na phwyllgorau craffu.
- Roedd system gyfeirio nad oedd yn cynnwys teitlau adroddiadau yn golygu ei bod yn amhosibl nodi pwnc adroddiadau oni châi'r holl ddogfennau ar yr agenda eu hagor.
- Enghreifftiau o gofnodion na ellid cael gafael arnynt ar y wefan.

34 Nodwyd mai'r rheswm pam roedd y rhan fwyaf o'r aelodau o'r farn ei bod yn hawdd cael gwybod am y penderfyniadau allweddol a oedd yn cael eu gwneud oedd am fod eu ffynonellau gwybodaeth yn llawer mwy hygyrch na'r wefan sydd ar gael i'r cyhoedd. Tra bod aelodau yn cael eu briffio gan uwch swyddogion ac yn cael dogfennau perthynasol, nid oedd gwefan y Cyngor yn ei gwneud yn hawdd dod o hyd i wybodaeth. Roedd y Cyngor wedi cydnabod y gwendid o ran cael gafael ar wybodaeth ac wedi dechrau proses wella gyda'r nod o sefydlu trefniadau newydd erbyn diwedd mis Hydref 2014.

35 Roedd y ffaith nad oedd unrhyw raglenni gwaith cyhoeddedig cyfredol ar y wefan ar gyfer y cabinet, byrddau'r cabinet na'r pwyllgorau craffu yn golygu na allai'r cyhoedd na rhanddeiliaid allanol nodi, yn gyffredinol, eitemau y bwriedid iddynt gael eu hystyried cyn i agendâu gael eu cyhoeddi. Dywedodd rhai aelodau wrthym nad oeddent bob amser yn ymwybodol o eitemau a oedd i'w trafod mewn cyfarfodydd nes iddynt gael copi o'r agenda a'r adroddiadau cyhoeddedig, nad ydynt ond yn eu cael ychydig ddiwrnodau cyn cyfarfod mewn rhai achosion. Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi mabwysiadu rhaglenni gwaith ar gyfer y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu ac wedi eu cyhoeddi ar ei wefan, gan adfer arfer a oedd ar waith ddwy flynedd yn ôl.

36 Roedd y Cyngor wedi mabwysiadu'r arfer o beidio â chyhoeddi cofnodion cyfarfodydd tan ar ôl i gyfarfod o'r Cyngor gael ei gynnal. Roedd hyn wedi peri oedi cyn darparu gwybodaeth ac mae'r arfer wedi dod i ben bellach. Nid yw'r Cyngor yn cyhoeddi cofnodion drafft cyfarfodydd pwyllgorau ar y wefan ochr yn ochr â'r papurau ar gyfer cyfarfodydd lle y cânt eu cymeradwyo ac, felly, byddai aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid allanol yn anymwybodol o gynnwys cofnodion drafft y bwriedir iddynt gael eu cymeradwyo. Cyn ac yn ystod ein gwaith maes gwelsom hefyd enghreifftiau o adroddiadau pwyllgorau nad oeddent i'w cael yn y rhan berthnasol o'r wefan yn ogystal â gwallau o ran dolenni gwefan i bapurau. Er enghraifft, o chwe chyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd rhwng 29 Ionawr a 14 Mai 2014 dim ond dau a oedd â dolen briodol i'r cofnodion cywir ar y wefan, roedd y dolenni ar gyfer dau gyfarfod yn arwain i gofnodion cyfarfod a gynhaliwyd yn 2005 ac nid oedd unrhyw gofnodion ar y wefan ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2014. Dylai'r system TG well a fabwysiadwyd ddatrys y materion hyn.

37 Ar y cyfan roedd yr aelodau o'r farn bod ganddynt gydberthnasau gwaith cadarnhaol ag uwch swyddogion. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn dirprwyo rhywfaint o bŵer gwneud penderfyniadau i uwch swyddogion unigol. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oes unrhyw gofnod a ddelir yn ganolog o benderfyniadau swyddogion a wnaed o dan bwerau dirprwyedig ac nad yw'r penderfyniadau hyn yn cael eu cyhoeddi ac, felly, ni all y cyhoedd na rhanddeiliaid allanol eraill eu gweld. At hynny, nid yw'n glir sut y caiff cynghorwyr eu hysbysu am benderfyniadau dirprwyedig a wnaed gan swyddogion fel mater o drefn.

38 Mae'r Cyngor hefyd yn rhagweithiol pan fydd yn ymgynghori â grwpiau buddiant penodol. Mae wedi cydnabod bod angen gwella'r defnydd y mae'n ei wneud o dechnoleg er mwyn cynhyrchu gwybodaeth well am ei fusnes, ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o ddatrys y materion hyn erbyn mis Medi 2014.

| Cynigion ar gyfer Gwella – Llywodraethu | |
|---|---|
| **C1** | Sefydlu rhaglen hyfforddi sgiliau sy'n helpu aelodau i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol.<br>Cyflwyno system ffurfiol o arfarnu rolau aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu sgiliau. |
| **C2** | Adolygu trefniadau craffu er mwyn sefydlu amrywiaeth mwy cytbwys o weithgarwch craffu, llunio blaenraglen i'w gwneud yn bosibl i gynllunio a chydgysylltu gweithgarwch a rhoi terfyn ar arferion llafarus nad ydynt yn cael effaith. |
| **C3** | Darparu gwybodaeth gynhwysfawr a hygyrch am y busnes a gynhelir gan y Cyngor. |
| **C4** | Gwella trefniadau chwythu'r chwiban drwy wneud y canlynol:<br>• egluro'r trefniadau cyflwyno adroddiadau;<br>• dwyn ynghyd y wybodaeth a ddelir mewn dogfennau gwahanol ar hyn o bryd; a<br>• rhoi mwy o wybodaeth am fesurau diogelu y bydd y Cyngor yn eu darparu i gyflogeion o dan y trefniadau. |

## Mae'r Cyngor yn gwneud gwelliannau yn ei feysydd â blaenoriaeth ond nid yw'n gwerthuso pa mor effeithlon y maent yn cael eu cyflawni

### Mae'r gwaith o gyflawni prif flaenoriaethau'r Cyngor yn cael ei lywio gan system rheoli rhaglenni lle mae diffyg eglurder ar hyn o bryd ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus

39 Yn 2009 mabwysiadodd y Cyngor ddull o reoli rhaglenni a oedd yn canolbwyntio ar gyflawni ei brosiectau â blaenoriaeth. Nododd y dull gweithredu pwy oedd yn gyfrifol am fonitro a chyflawni prosiectau a defnyddiodd 'adroddiadau ar y prif bwyntiau' fel ffordd o friffio aelodau a'i gwneud yn bosibl i benderfyniadau gael eu gwneud ynghylch cyrraedd cerrig milltir allweddol.

40 Yn 2013 sefydlodd y Cyngor raglen newydd, a oedd yn seiliedig ar ei ddull blaenorol o weithredu, sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- parhau â'r rhaglen gwella ysgolion strategol;
- gwella'r modd y rheolir gwastraff, yn benodol ailgylchu a lleihau gwastraff domestig;
- moderneiddio gofal cymdeithasol oedolion;
- adfywio ardaloedd drwy gyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau y bwriedir iddynt wella cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol; a
- gwella effeithlonrwydd systemau'r cyngor a chyfleoedd i ddinasyddion ddefnyddio gwasanaethau.

41 Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn gweithgareddau a cherrig milltir allweddol a defnyddir system raddio i nodi lle mae cynnydd fel y bwriadwyd, neu mewn perygl. Mae rhai adroddiadau yn glir ynglŷn â'r risgiau a allai ddeillio o ddiffyg adnoddau ar lefel swyddogion neu lle y dibynnir ar arian yn cael ei ddarparu.

42 Er bod y dull hwn o weithredu wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'r Cyngor yn y gorffennol, dengys cyfeiriadau at rai o'r cynlluniau presennol, megis y rhai ar gyfer moderneiddio gofal cymdeithasol oedolion, nad yw nifer o weithgareddau arfaethedig a nodwyd gyntaf yn 2009 wedi'u gweithredu'n llawn eto a'u bod yn dal i fod yn feysydd gweithgarwch yn 2014. Mae'r Adroddiad ar y Prif Bwyntiau ym maes Adfywio, er enghraifft, yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau ac, yn yr achos hwn, er y gellir nodi rhai llwyddiannau allweddol gan gynnwys ailwampio Neuadd Gwyn yng Nghastell-nedd, mae cyfanswm y gweithgareddau yn golygu ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng 'blaenoriaeth' a'r hyn y gellid ystyried ei fod yn 'fusnes arferol' y tîm dan sylw. O gofio maint y toriadau cyllidebol a'r nifer fawr o staff sydd wedi gadael yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'n hanfodol bod blaenoriaethau yn cael eu nodi'n glir a bod y gwaith o gyflawni amcanion yn cael ei gysoni â'r adnoddau sydd ar gael.

## Nid yw'r trefniadau cyflwyno adroddiadau cyfredol yn dwyn ynghyd wybodaeth mewn ffordd sy'n galluogi'r Cyngor i werthuso a yw'n gwneud defnydd effeithiol o'i adnoddau

43 Mae'r trefniadau cyflwyno adroddiadau cyfredol yn cynnwys cyflwyno data ar berfformiad gwasanaethau i gyfarfodydd craffu. Mae'r aelodau hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol ac, yn ystod 2014, gwnaethant ddechrau cael gwybodaeth am berfformiad yn erbyn arbedion arfaethedig. Er bod gwybodaeth ar gael nis cyflwynir mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosibl i ansawdd darpariaeth gael ei werthuso yng nghyd-destun yr adnoddau a ddarperir.

44 Dros amser mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o endidau masnachu. Bellach, nid yw'r gwaith o oruchwylio'r endidau hynny ac adolygu darpariaeth yn erbyn bwriadau yn cael ei wneud yn gyson. Er enghraifft, yn 2013 adolygodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol 'Property Bay Wales' a nododd, ers iddo gael ei sefydlu gan y Cyngor yn 2007, fod ffocws y busnes wedi newid, bod llinellau atebolrwydd aneglur a bod trefniadau cyfrifyddu gwan yn golygu na ellid tybio bod incwm blynyddol tybiannol y Cyngor, sef £300,000, yn cael ei sicrhau mewn gwirionedd. Er i Fwrdd y Cabinet benderfynu adolygu dyfodol yr endid masnachu hwn, ar ôl 12 mis mae angen sefydlu trefniadau er mwyn sicrhau y creffir ar berfformiad endidau o'r fath yn fwy rheolaidd.

45 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen cynhyrchu gwell gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir ganddo a sicrhau y mabwysiedir dull cyson o reoli perfformiad. Disgwylir i wasanaethau lunio cynlluniau busnes sy'n cynnwys meysydd ar gyfer gwella ond roedd y dull gweithredu wedi mynd yn anghyson ac mae rhai gwasanaethau wedi rhoi'r gorau i lunio cynlluniau.

## Disgwylir i wasanaehtau lunio cynlluniau busnes sy'n cynnwys meysydd ar gyfer gwelliant ond roedd y dull wedi dod yn anyghyson ac roedd rhai wasanaethau wedi atal llunio cynlluniau

46 Ar adeg cynnal yr asesiad hwn roedd y Cyngor wrthi'n diwygio ei fframwaith rheoli perfformiad er mwyn atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaethau. Mae'r trefniadau diwygiedig yn cynnwys datblygu cardiau adrodd gwasanaethau ar lefel rheolwr atebol. Bwriedir i'r cardiau adrodd hyn roi crynodeb clir a syml o berfformiad gan ddefnyddio amrywiaeth o fesurau a ddylai helpu i werthuso ansawdd perfformiad yng nghyd-destun yr adnoddau a ddefnyddiwyd.

## Dengys y canlyniadau ar gyfer 2013-14 welliant yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol

47 Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor lunio adroddiadau ar gyfres gyffredin o ddangosyddion er mwyn gallu cymharu perfformiad meysydd gwasanaeth allweddol ledled Cymru. Pennwyd 30 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol sy'n ymdrin â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Mae Cynghorau yng Nghymru hefyd wedi mabwysiadu 14 o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus am eu bod yn adlewyrchu materion o bwys lleol fel cymorth i ofalwyr, presenoldeb yn yr ysgol a chyflwr priffyrdd.

48 I grynhoi, o’r cyfanswm o 43 o ddangosyddion a mesurau lle y gellir gwneud cymhariaeth, dangosodd y canlyniadau ar gyfer 2013-14 o gymharu â gwerthoedd 2012-13:

- roedd y Cyngor ymhlith y chwech uchaf yng Nghymru yn achos 24 o’r 43 o ddangosyddion, gan wella ei safle o gymharu â 2012-13 pan oedd ymhlith y chwech uchaf yn achos chwe dangosydd.
- dangosodd 29 o ddangosyddion welliant (er bod wyth canlyniad yn gosod y Cyngor ymhlith y perfformwyr gwaethaf yng Nghymru);
- nid oedd chwech wedi newid (gan gynnwys pump lle mae’r perfformiad uchaf posibl yn cael ei gyflawni); a
- gwaethygodd wyth ac, yn achos pump ohonynt, roedd y Cyngor wedi disgyn nes ei fod ymhlith y perfformwyr gwaethaf yng Nghymru.

49 Mae’n rhaid trin y data yn ofalus am nad yw, o reidrwydd, yn nodi ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ac nid yw’r data, ar eu pen eu hunain, yn dangos bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau posibl o’r adnoddau sydd ar gael. Mae’r Cyngor wedi cydnabod hyn ac mae gwaith yn mynd rhagddo a fydd, os caiff ei gwblhau, yn dwyn ynghyd wybodaeth mewn ffordd sy’n ei gwneud yn bosibl i effaith gweithgarwch o ran ansawdd a chost y gwasanaeth gael ei gwerthuso.

50 Trafodir y data sy’n ymwneud ag addysg a gofal cymdeithasol yn fanylach mewn adrannau diweddarch. O ran y data eraill, mae’r materion canlynol yn haeddu sylw:

- mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud yn dilyn y gweliant sylweddol o ran darparu grantiau ar gyfer cyfleusterau i’r anabl a sicrhawyd rhwng 2011-12 a 2012-13; a
- gwellodd cyfraddau ailgylchu gwastraff ddigon fel bod y Cyngor wedi osgoi’r risg o gosbau ariannol.

## Mae disgyblion sy’n cyrraedd diwedd addysg orfodol yn cael canlyniadau da iawn am gost sy’n is na’r cyfartaledd ond mae risg y gallai presenoldeb gwael a thangyflawni ymhlith disgyblion iau danseilio perfformiad yn y dyfodol

51 Mae disgyblion yn ysgolion uwchradd y Cyngor yn cael canlyniadau TGAU sydd gryn dipyn yn uwch na’r hyn y gellid ei ddisgwyl o’u cymharu ag ysgolion eraill ledled Cymru sydd â lefelau tebyg o amddifadedd, a hynny’n gyson. Yn 2013 (sef y flwyddyn fwyaf diweddar y mae data cymharol ar gael ar ei chyfer), cafodd 56 y cant o ddisgyblion 16 oed bum gradd TGAU dda neu fwy a oedd yn cynnwys Cymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg a mathemateg, a oedd gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 52.7 y cant. Roedd gan bron bob disgybl ym Mlwyddyn 11 a adawodd addysg amser llawn yn 2013 o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig.

52 I'r gwrthwyneb, mae asesiadau athrawon mewn cyfnodau cynharach o addysg disgyblion yn aml yn awgrymu bod lefelau sylweddol o dangyflawni. Ar ddiwedd eu cyfnod mewn addysg gynradd, er enghraifft, cyflawnodd 82 y cant o ddisgyblion yng Nghastell-nedd Port Talbot y dangosydd pwnc craidd yn 2013, a oedd islaw cyfartaledd Cymru, sef 84.3 y cant. Cafodd bron un o bob tair ysgol gynradd ganlyniadau a oedd yn cymharu'n anffafriol ag ysgolion mewn rhannau eraill o Gymru a oedd â lefelau tebyg o amddifadedd. Dengys canlyniadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar fod canlyniadau mewn ysgolion cynradd wedi gwella llai na chyfartaledd Cymru yn 2014.

53 Mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn tueddu i adlewyrchu'r canlyniadau a geir gan ddisgyblion. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn cymharu'n anffafriol â phresenoldeb mewn awdurdodau eraill yng Nghymru. I'r gwrthwyneb, mae lefelau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn dal i fod yn uchel, gyda chyfraddau presenoldeb yn nhri chwarter yr ysgolion yn cymharu'n ffafriol â'r rhai mewn ysgolion mewn rhannau eraill o Gymru sydd â lefelau tebyg o amddifadedd. Roedd cyfradd y gwaharddiadau parhaol neu gyfnod penodol o ysgolion uwchradd yng Nghastell-nedd Port Talbot ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru yn 2012-13, ond parhaodd nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol sy'n para am chwe diwrnod neu fwy i leihau, gan adlewyrchu'r duedd am i lawr a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## Mae'r rhaglen gwella ysgolion yn moderneiddio cyfleusterau ac yn rheoli lleoedd gwag

54 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod digon o leoedd ar gael mewn ysgolion, a hynny mewn modd effeithlon. Ym mis Ionawr 2013, roedd tua 6,600 o leoedd gwag mewn ysgolion wedi'u dosbarthu ar draws y 79 o ysgolion cynradd ac uwchradd. Cynyddodd nifer y lleoedd gwag ychydig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn groes i'r duedd a welwyd ledled Cymru. Mae mwy na 25 y cant o leoedd mewn ysgolion yn wag mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn 2008 dechreuodd y Cyngor ei raglen gwella ysgolion strategol gyda'r bwriad o fynd i'r afael â lleoedd gwag a moderneiddio'r cyfleusterau sydd ar gael i bobl ifanc.

55 Er gwaethaf cost gymharol uchel lleoedd gwag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi llwyddo i leihau ei wariant ar addysg o'i gymharu â'i wariant ar wasanaethau eraill yn sylweddol. Ar gyfer 2014-15, mae gwariant arfaethedig net y Cyngor ar addysg yn cyfateb i £4,979 fesul disgybl, nad yw ond ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Y ffigur cyfatebol ar gyfer 2009-10 oedd £4,963 fesul disgybl, sef y pumed uchaf ymhlith yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Ar gyfer 2014-15, mae costau gros y systemau ysgolion cynradd ac uwchradd, gan ystyried arian a ddirprwywyd ac arian nas dirprwywyd, ac eithrio cludiant o'r cartref i'r ysgol, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.

## Mae'r Cyngor yn moderneiddio gwasanaethau cymdeithasol ac mae gwasanaethau plant yn dal i gael eu monitro gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol

56 Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn rheoleiddio gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch ansawdd ac argaeledd gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn helpu i ddiogelu oedolion a phlant, gan sicrhau y diogelir eu hawliau. Cyhoeddwyd *Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013-14* AGGCC ym mis Hydref 2014. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at ddatblygu a moderneiddio gwasanaethau cymdeithasol yng Nghastell-nedd Port Talbot a'r angen i barhau i fonitro gwasanaethau plant. Gellir cael copi o'r gwerthusiad drwy fynd i wefan AGGCC www.cssiw.org.uk.

57 Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014 dywedwyd bod y Cyngor yn destun 'protocol pryderon difrifol' AGGCC. Nodwyd canlyniadau arolygiad a gynhaliwyd gan AGGCC a asesodd y cynnydd yr oedd y Cyngor yn ei wneud o ran mynd i'r afael â'r materion a oedd wedi arwain at y penderfyniad i roi'r protocol ar waith. Mae'r Cyngor yn dal i gael ei fonitro o dan y protocol a disgwylir i AGGCC gynnal arolygiad pellach yn 2015. Bydd AGGCC yn cyhoeddi canlyniadau'r arolygiad hwn ar ôl cwblhau ei asesiad.

## Dengys data a gyhoeddwyd welliannau yn y rhan fwyaf o ddangosyddion gofal cymdeithasol

58 Dangosodd data ar wasanaethau plant yn 2013-14 welliant cymharol mewn naw o'r 13 o ddangosyddion:

- cafwyd gwelliant o ran sefydlogrwydd lleoliadau plant sy'n derbyn gofal;
- cafwyd gwelliant o ran cyswllt â phobl ifanc 19 oed a fu'n derbyn gofal, yn ogystal â gwybodaeth y Cyngor o'u hamgylchiadau;
- ni fu newid sylweddol yng nghanran y plant sy'n derbyn gofal sy'n newid ysgol a pherfformiodd y Cyngor yn wael o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru; ac
- er bod y Cyngor wedi sicrhau bod gan bob lleoliad cyntaf gynllun gofal, gostyngodd canran yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd lle roedd tystiolaeth bod plentyn wedi'i weld gan weithiwr cymdeithasol.

59 Dangosodd data ar wasanaethau oedolion yn 2013-14 fod y Cyngor wedi cynnal y perfformiad gorau posibl ar gyfer dau ddangosydd ac wedi sicrhau gwelliant cymharol mewn pedwar o'r saith dangosydd a:

- bod y Cyngor wedi cynnal y perfformiad gorau posibl o ran rheoli atgyfeiriadau diogelu oedolion a chynnig asesiadau gofalwyr er mwyn nodi eu hanghenion o ran cymorth; a
- bod nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal wedi'i leihau a bod gwelliannau wedi'u sicrhau o ran cwblhau adolygiadau o gynlluniau gofal a dau ddangosydd a oedd yn ymwneud â chymorth yn y gymuned.

60 Roedd perfformiad wedi parhau’n sefydlog o ran canran y bobl hŷn a oedd yn cael cymorth mewn cartrefi gofal ac roedd y Cyngor ymhlith y perfformwyr gwannaf yng Nghymru ar gyfer y dangosydd hwn.

## Mae’r Cyngor wedi gwella ei drefniadau ar gyfer diogelu plant ac mae’n mynd i’r afael â’r gwendidau sy’n weddill

61 Mae pawb yn gyfrifol am ddiogelu plant. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i roi trefniadau diogelu ar waith sy’n cynnwys gwaith cynllunio strategol, cymorth ac arweiniad i holl ddarparwyr gwasanaethau perthnasol yn eu hardal, a darparu rhai gwasanaethau yn uniongyrchol eu hunain. Yn arbennig, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn sicrhau diogelwch a lles plant yn eu hardal, gan gynnwys y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

62 Ym mis Awst 2014 gwnaethom gyflwyno canlyniadau ein hasesiad o ba un a oedd trefniadau llywodraethu a rheoli’r Cyngor yn rhoi sicrwydd bod plant yn cael eu diogelu. Daethom i’r casgliad bod y trefniadau wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf ac rydym wedi rhoi adroddiad manwl i’r Cyngor sy’n cynnwys cynigion ar gyfer gwella. Am y rheswm hwn nid ydym yn ailadrodd y cynigion ar gyfer gwella yn yr adroddiad hwn ond byddwn yn monitro cynnydd o ran eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn i ddod.

63 Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu priodol ar waith ar gyfer goruchwylio gweithgarwch. Mae uwch swyddogion perthnasol yn cysylltu gwaith cynllunio strategol â’r gwaith o gyflawni trefniadau gan weithio ar draws amrywiaeth o wasanaethau a chyda phartneriaid allanol. Ar nodyn cadarnhaol, mae’r Cyngor wedi llunio canllawiau ar ddiogelu plant i sefydliadau anstatudol, y bwriedir iddynt roi gwybodaeth i sefydliadau am eu rolau a’u cyfrifoldebau cyfreithiol o ran diogelu plant. Yn yr un modd, mae tystiolaeth bod swyddogion ac aelodau yn gwybod pwy yw Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol ym maes diogelu. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd rhai uwch swyddogion yn gwbl ymwybodol o’r trefniadau corfforaethol rheoli risg, gydag aelodau gwahanol o staff yn nodi dulliau gwahanol o reoli risgiau.

64 Mae tystiolaeth bod gwybodaeth a pherfformiad yn cael eu monitro, eu gwerthuso a’u herio. Mae fframwaith sicrhau ansawdd y Cyngor yn nodi wyth safon arfer da a’r meini prawf a ddefnyddir i’w mesur. Mae’r Cyngor yn defnyddio ei fframwaith sicrhau ansawdd i farnu effeithiolrwydd gweithgarwch diogelu plant, ynghyd ag archwiliadau’r Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Fodd bynnag, ar adeg ein hadolygiad, newydd gael ei chyflwyno yr oedd y system. Ar ôl iddynt gael eu sefydlu a’u rhoi ar waith, dylai’r newidiadau hyn roi gwell gwybodaeth i’r Cyngor i’w galluogi i farnu perfformiad gwasanaethau a sicrhau ei hun bod ei drefniadau yn gweithio’n effeithiol. At hynny, cedwir cryn dipyn o wybodaeth am ddiogelu plant a phobl ifanc mewn gwahanol rannau o’r Cyngor ac mae’n ymwybodol bod angen casglu’r wybodaeth hon ynghyd ar lefel gorfforaethol.

65 Nid yw gweithgarwch diogelu wedi'i gynnwys yn rhaglen archwilio mewnol y Cyngor ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth bod y Cyngor yn dysgu o werthusiadau o wasanaethau. Mae'r Cyngor yn defnyddio adolygiadau arfer plant fel ffynhonnell ar gyfer dysgu o wersi o fethiannau mewn systemau a digwyddiadau ac mae cynrychiolwyr hyfforddiant yn mynd i'r grŵp rheoli hyfforddiant strategol sy'n edrych ar themâu i'w hymgorffori mewn rhaglenni hyfforddi a datblygu. Fodd bynnag, dywed uwch swyddogion, er bod y Cyngor yn cymryd camau i wella trefniadau, nad yw prosesau rhannu gwybodaeth wedi'u datblygu'n dda.

| Cynigion ar gyfer Gwella – Rheoli Perfformiad | |
|---|---|
| **C5** | Sicrhau bod disgwyliadau o ran cyflawni rhaglenni yn seiliedig ar asesiad realistig o'r adnoddau sydd ar gael – yn arbennig yn y rhaglen Trawsffurfio Gofal Cymdeithasol Oedolion a'r rhaglen Adfywio. |
| **C6** | Canolbwyntio ar ysgolion sy'n perfformio'n waeth er mwyn ysgogi a chynnal gwelliannau gan ystyried y lefelau o berfformiad a ddisgwylir gan ysgolion yng Nghymru sydd â lefelau tebyg o amddifadedd. |
| **C7** | Rhoi gwelliannau arfaethedig ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad ar waith er mwyn dwyn ynghyd gwybodaeth mewn ffordd sy'n galluogi'r Cyngor i werthuso a yw'n gwneud defnydd effeithiol o'i adnoddau.<br>Cyflwyno trefniadau ar gyfer adolygu perfformiad sy'n ei gwneud yn bosibl i werthuso cyfraniad asiantaethau masnachu mewnol at gyflawni amcanion y Cyngor. |

## Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni targedau arbedion cyffredinol, ond mae pwysau ariannol cynnar yn golygu bod risg na fydd yn gallu cyflawni arbedion arfaethedig yn y dyfodol

### Mae gan y Cyngor hanes o fantoli ei gyllideb

66 Mae'r Cyngor wedi llwyddo i nodi'r bylchau yn ei gyllideb dros y tair blynedd diwethaf ac roedd y tybiaethau a'r cyfrifiadau a ddefnyddiwyd ganddo fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb yn gadarn. Fodd bynnag, mae wedi wynebu pwysau cyllidebol oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau, yn arbennig gwasanaethau cymdeithasol. Er i'r Cyngor lwyddo i gyflawni ei darged o ran y gyllideb gyffredinol, dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2011-12 a 2013-14 cafodd gwariant ychwanegol yng nghyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol ei wrthbwyso gan danwariant mewn meysydd eraill.

67 Darparwyd gwasanaethau'r Cyngor o fewn y terfynau arian parod a bennwyd ar gyfer cyfarwyddiaethau ar gyfer 2013-14. Cyflawnwyd targedau arbedion cyffredinol yn y gorffennol a lle y cafwyd llithriant mae cynlluniau wrth gefn wedi'u rhoi ar waith yn llwyddiannus. Ers hynny mae'r Cyngor wedi cyflwyno cynllun arbedion manwl, sydd wedi'i gynnwys yn y Blaengynllun Ariannol, er mwyn gwella tryloywder ynghylch ffynhonnell arfaethedig arbedion fel y gellir asesu effaith methiant i gyflawni'r hyn y bwriadwyd ei gyflawni yng nghyd-destun blaenoriaethau'r Cyngor.

### Mae'r Cyngor wedi llunio cynllun arbedion manwl ar gyfer 2014-15 a fydd yn ei alluogi i nodi a yw penderfyniadau ynghylch pennu'r gyllideb yn cael eu gweithredu

68 Nododd y Cyngor fod yn rhaid iddo arbed £17.3 miliwn yn 2014-15 er mwyn iddo fantoli ei gyllideb. Cafodd y penderfyniadau ynghylch y meysydd gweithgarwch lle y câi arbedion arfaethedig eu cyflawni yn ystod 2014-15 eu llywio gan ymgynghoriad a ystyriodd farn rhanddeiliaid allweddol. Edrychodd y broses ymgynghori ar y ddarpariaeth gwasanaethau gyfredol a chyflwynodd gynigion i newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn darparu ei wasanaethau dros y tymor hwy yn llwyr.

69 Ymgynghorwyd â defnyddwyr gwasanaethau, staff ac undebau llafur ynghylch y cynigion ac mae'r pwyllgorau perthnasol wedi craffu arnynt. Paratowyd cynigion yng nghyd-destun blaenoriaethu chwe amcan gwella'r Cyngor. Mae canlyniad yr ymarfer wedi arwain, er enghraifft, at drosglwyyddo'r cyfrifoldeb am reoli llyfrgelloedd i gymunedau lleol, gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan gyngor cymuned a chytuno ar feini prawf dyrannu arian â sefydliadau yn y trydydd sector a sicrhaodd arbedion gwerth £400,000 yn 2014-15.

70 Mae gan y Cyngor sawl system adolygu ar waith i fonitro a herio perfformiad ariannol ac mae'n glir pwy sy'n gyfrifol am reoli cyllidebau. Caiff swyddogion eu dwyn i gyfrif am orwariant cyllidebol ac am wneud iawn am unrhyw ddiffygion cyllidebol gan ddefnyddio cyllidebau adrannol. Yn fwy diweddar, mae'r Prif Weithredwr wedi cynnwys amcanion o ran cyflawni arbedion angenrheidiol fel rhan o'r broses o arfarnu uwch reolwyr.

## Nid yw cynigion ar gyfer arbedion yn nodi'r canlyniad o ran cynaliadwyedd neu ansawdd gwasanaeth yn y dyfodol yn gyson

71 Heblaw am y meysydd hynny lle mae cynnig ar gyfer arbedion yn nodi y dylid 'rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth' neu 'dynnu arian yn ôl', nid oes unrhyw gysylltiad clir rhwng y targedau arbedion yn y Blaengynllun Ariannol a'r effaith debygol ar ansawdd gwasanaeth/y gweithlu. Er enghraifft, mae'r Blaengynllun Ariannol yn cynnig y dylid rhoi'r gorau i'r swyddogaeth dadansoddi data corfforaethol ac ymchwil, a gyflawnir ar hyn o bryd gan yr adran gynllunio. Ceir rhestr o arbedion yng Nghynllun Busnes yr Adran Gynllunio, ac mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gynnwys ynddi ond ni wneir unrhyw ymgais i esbonio effaith rhoi'r gorau i'r gweithgaredd gan gynnwys unrhyw sgil-effeithiau ar wasanaethau eraill. Gellir gwella cynigion ar gyfer arbedion drwy nodi unrhyw ddirywiad disgwyliedig yn yr amrywiaeth o wasanaethau neu ansawdd gwasanaethau ac unrhyw effaith ar berfformiad neu brofiad y cwsmer.

72 Mae'r Cyngor hefyd wedi llwyddo i negodi dau gytundeb gweithlu olynol ag undebau llafur ac wedi cyflwyno Cynllun Diswyddo Gwirfoddol, yn unol â pholisi'r Cyngor i geisio osgoi diswyddiadau gorfodol. Gan fod llawer o swyddi wedi'u colli, wrth i gynlluniau arbedion ddwyn ffrwyth mae mwy o risg y bydd capasiti yn effeithio ar gydymffurfiaeth â rheolaethau ariannol allweddol.

## Mae'r adolygiad cyllidebol diweddaraf o gynlluniau arbedion ar gyfer 2014-15 wedi nodi pwysau o ran cost nas rhagwelwyd ac wedi tanlinellu'r lefel o risg sy'n gysylltiedig â'u cyflawni'n gyffredinol

73 Dengys Cyllideb 2014-15 Gyllideb Refeniw net o ychydig o dan £270 miliwn, sy'n ostyngiad arian parod o ychydig dros £6 miliwn o gymharu â 2013-14. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen iddo wneud iawn am ddiffyg ariannu o £38 miliwn dros y pedair blynedd nesaf ac mae'n ymgynghori ynghylch sut y gellid gwneud hynny.

74 Mae'r Gyllideb yn ystyried pwysau o ran cost gan gynnwys dyfarniadau cyflog, chwyddiant mewn prisiau ac incymau, gwerthuso swyddi a thanwariant gofynnol o £1.158 miliwn i ariannu cronfa wrth gefn ar gyfer y Cynllun Ymddeol yn Gynnar a Diswyddo Gwirfoddol. Mae adolygiad o gronfeydd wrth gefn penodol eraill wedi rhyddhau mwy na £4 miliwn i'r gronfa wrth gefn hon. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn defnyddio ychydig dros £3.292 miliwn i'w alluogi i ryddhau tua 150 o gyflogeion, rhai erbyn mis Mawrth 2014, a rhai yn ystod y flwyddyn ariannol ganlynol.

75 Eleni, mae'r Cyngor wedi llunio cynigion manwl i wneud arbedion ar gyfer pob gwasanaeth a fydd yn ei gwneud yn bosibl i fonitro perfformiad yn agosach ac osgoi galwadau ar gyllidebau eraill i gyflawni targedau arbedion. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2014 ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 30 Mehefin yn disgrifio pwysau nas rhagwelwyd gwerth cyfanswm o £2.138 miliwn sy'n dangos bod risg ychwanegol i gyflawni arbedion arfaethedig.

## Nid yw cyfarwyddiadau cyfrifyddu, rheoliadau ariannol na pholisïau ar incwm a chodi tâl yn gyfredol

76 Fframwaith llywodraethu ariannol y Cyngor yw ei gyfansoddiad, a ategir gan reoliadau ariannol, gweithdrefnau contractau a chyfarwyddiadau cyfrifyddu. Roedd y cyfarwyddiadau cyfrifyddu a'r rheoliadau ariannol y cyfeiriwyd atynt yng nghynlluniau'r Cyngor wedi dyddio mewn llawer o achosion.

77 Nid oes unrhyw bolisi corfforaethol cyffredinol ar gynhyrchu incwm na chodi tâl ac, felly, ni all y Cyngor sicrhau bod consesiynau yn cael eu cynnig i grwpiau targed priodol mewn modd cyson. Dywedwyd wrthym fod cyfarwyddiaethau yn cynnal cofrestrau cynhyrchu incwm a chodi tâl ynghyd ag ystadegau ar ddefnydd a thaliadau. Dywedwyd wrthym hefyd fod y Cyngor yn nodi'r cyfleoedd sydd i gynhyrchu mwy o incwm ar lefel cyfarwyddiaeth, ond nid ymddengys fod y gwaith hwn yn rhan o ddull corfforaethol, cydlynol o gynhyrchu incwm a chodi tâl.

| Cynigion ar gyfer Gwella – Cynllunio Ariannol | |
|---|---|
| **C8** | Gwella prosesau cynllunio a monitro ariannol drwy gyfuno gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad yn fwy effeithiol, gan atgyfnerthu'n benodol y cysylltiadau rhwng y Blaenraglen Ariannol a Chynlluniau Busnes. |
| **C9** | Egluro'r polisi corfforaethol ar gynhyrchu incwm a chodi tâl er mwyn sicrhau dull cyson o ymdrin â chonsensiynau a grwpiau targed. |
| **C10** | Gwella'r modd y caiff gwybodaeth ariannol ei chofnodi er mwyn helpu i ddeall y canlynol:<br>• goblygiadau cynlluniau arbedion a phwysau ychwanegol ar yr amrywiaeth o wasanaethau a'u hansawdd, yn arbennig y gwasanaethau hynny sy'n cefnogi blaenoriaethau gwella; a'r<br>• cysylltiadau rhwng adroddiadau cyllidebol a'r Flaenraglen Ariannol er mwyn esbonio'r effaith ar y targed arbedion a'r asesiad risg. |
| **C11** | Adolygu'r Cyfarwyddiadau Cyfrifyddu a'r Rheoliadau Ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r arferion gwaith diweddaraf a pholisïau diweddaraf y Cyngor ac yn cyfleu gofynion i'r staff. |

## Mae gan y Cyngor weledigaeth strategol glir ar gyfer ei swyddogaeth adnoddau dynol ond nid oes ganddo'r trefniadau ategol sydd eu hangen er mwyn sicrhau y caiff ei gwireddu

78 Mae i Strategaeth Pobl 2012-2017 y Cyngor dri amcan, sef:

- Y Nifer Gywir o Bobl yn y Lle Cywir – Er mwyn sicrhau ein bod yn recriwtio, yn cadw ac yn defnyddio'r nifer gywir o bobl yn y lle cywir er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.
- Pobl â'r Sgiliau Cywir – Er mwyn sicrhau bod pob cyflogai yn cael cyfle i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen er mwyn gwireddu eu potensial a chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.
- Pobl yn gwneud y Pethau Cywir - Er mwyn creu diwylliant lle y rhoddir gwerth ar bwysigrwydd arweinyddiaeth gref ac ysbrydoledig, gyda pherfformiad uchel ac awydd i sicrhau bod pobl yn cael eu hystyried yn gydradd.

### Nid oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio'r gweithlu

79 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf bu saith newid ymhlith uwch reolwyr o ganlyniad i staff yn ymddeol neu'n gadael. Mae'r strategaeth arbedion yn disgwyl i nifer y staff leihau yn y dyfodol ond nid yw effaith y lleihad hwn ar y gwasanaethau a ddarperir yn cael ei hadlewyrchu ar hyn o bryd mewn cynllun gweithlu a fydd yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcan i sicrhau bod y nifer gywir o bobl yn y lle cywir.

80 Mae'r Cyngor wedi nodi nad oes ganddo ddata dibynadwy ar y gweithlu i'w alluogi i gynllunio'r newidiadau sydd angen eu gwneud er mwyn darparu gwasanaethau yn y dyfodol yn y byrdymor, y tymor canolig na'r hirdymor. Mae'r Cyngor yn disgwyl cwblhau'r gwaith o lanhau a diweddaru data erbyn mis Mawrth 2015 ac mae hyn yn hanfodol er mwyn ei alluogi i gynllunio'r gweithlu mewn modd systematig a chynhwysfawr.

### Nid oes gan y Cyngor system arfarnu perfformiad sy'n sicrhau bod staff yn glir ynghylch eu blaenoriaethau a'u bod yn gymwys i ddarparu'r gwasanaeth a ddisgwylir ganddynt

81 Cyflwynwyd proses arfarnu perfformiad gan y Prif Weithredwr gyntaf yn 2010. Ar ôl i'r Cyngor gydnabod bod anghysondeb o ran y ffordd roedd yn cael ei defnyddio, fe'i hysgogwyd o'r newydd yn 2014. Cytunwyd ar gyfres o amcanion y gellir gwerthuso perfformiad yn eu herbyn ac mae'r cyfarfodydd asesu canol blwyddyn cyntaf wedi'u cynnal. Yn ddiweddar cafodd y Prif Weithredwr ei arfarnu gan grŵp amlbleidiol o Aelodau. Cynhaliwyd arfarniadau dilynol gan y Prif Weithredwr ar gyfer Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaethau. Hefyd, mae rheolwyr trydedd haen bellach wedi'u gwahodd i gymryd rhan yn y broses arfarnu newydd hon. Bydd pob aelod arall o staff yn ailddechrau cwblhau'r system adolygu datblygiad cyflogeion (EDR) bresennol wrth i drefniadau gwell gael eu datblygu.

82 Nid yw'r system EDR wedi'i rhoi ar waith yn gyson ym mhob rhan o'r Cyngor a dywedodd rhai aelodau o staff wrthym na fyddent yn cael unrhyw adborth ffurfiol ar eu perfformiad. Mynegodd rheolwyr, staff ac undebau llafur bryder hefyd ynghylch y ffaith bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal fesul tipyn a'r canfyddiad nad oedd iddynt ddiben na chanlyniadau.

83 Nid oes gan y Cyngor broses sefydlu gorfforaethol ar gyfer newydd-ddyfodiaid (er mai prin yw'r ymgyrchoedd recriwtio allanol cyffredinol a gynhaliwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf) na'r rhai sy'n dychwelyd i'r Cyngor ar ôl bod yn absennol am gyfnod hir. Mae trefniadau sefydlu ar waith mewn Gwasanaethau Plant lle mae'r rhan fwyaf o ymgyrchoedd recriwtio allanol wedi'u cynnal yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

| Cynigion ar gyfer Gwella – Adnoddau Dynol | |
|---|---|
| **C12** | Sicrhau y caiff proses arfarnu sy'n sicrhau bod staff yn gymwys i wneud eu gwaith ac sy'n ei gwneud yn bosibl i bobl gael eu dwyn i gyfrif ei mabwysiadu'n llawn erbyn mis Rhagfyr 2015.<br>• Rhoi proses sefydlu ar waith a sicrhau y caiff aelodau newydd o staff eu briffio ynghylch disgwyliadau corfforaethol.<br>• Sefydlu Cynllun Gweithlu. |

## Mae trefniadau rheoli asedau yn cefnogi gwelliant

### Mae Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor yn adlewyrchu llawer o egwyddorion arfer da ac mae camau yn cael eu cymryd i integreiddio gwaith rheoli asedau â chynlluniau busnes gwasanaethau

84 Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau ar gyfer 2011-16 sy'n adlewyrchu egwyddorion arfer da megis cyfeirio at amcanion corfforaethol, amcanion busnes ac amcanion o ran eiddo, yn ogystal â darparu safbwynt strategol dros gyfnod o bum mlynedd. Ategir y Cynllun Rheoli Asedau gan adroddiad blynyddol ar berfformiad eiddo sy'n darparu amrywiaeth o wybodaeth am berfformiad, arfarniad o gyflwr eiddo a sylwadau ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn targedau. Caiff data ar gyflwr eiddo eu llywio gan raglen dreigl pedair blynedd o arolygon. Amcangyfrifir y bydd yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn costio £151 miliwn i'w glirio ac nid ystyrir eu bod yn fforddiadwy. Mae'r blaengynllun ariannol yn cynnig y dylid sicrhau arbedion gwerth £50,000 ym maes cynnal a chadw adeiladau yn 2014-15.

85 Er bod cynnydd yn erbyn y naw amcan yn y Cynllun Rheoli Asedau yn cael ei adolygu'n flynyddol, ac er bod gweithgarwch yn cael ei ddiweddaru, nid yw'r Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer 2011-2016 wedi'i ddiweddaru er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn agosach â'r blaenoriaethau cyfredol a nodir yn 'Ymateb i'r Her', sef y Cynllun Gwella Corfforaethol ar gyfer 2014-17. Gellir unioni'r diffyg cysondeb hwn yn gymharol hawdd a gellir diweddaru'r Cynllun Rheoli Asedau er mwyn darparu fframwaith strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

86 Mae'r Cyngor yn cymryd camau i wella'r broses o integreiddio gwaith rheoli asedau â gwaith cynllunio busnes gwasanaethau ac mae wedi cynnal gweithdai ar eiddo gyda gwasanaethau sy'n berchen ar eiddo. Cododd arbenigwyr ym maes eiddo ymwybyddiaeth o eiddo a allai fod yn gostus ac yn ddiangen er mwyn lleihau'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw, rhyddhau derbyniadau cyfalaf a nodi cyfleoedd i ddefnyddio'r ystad gorfforaethol yn fwy deallus. Nid yw'r wybodaeth a ystyriwyd yn y gweithdai wedi'i chyfleu'n llawn yng nghynlluniau busnes gwasanaethau – pe gwneid hynny câi'r trefniadau rheoli asedau eu hatgyfnerthu ymhellach drwy wneud cysylltiadau cliriach â gofynion o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

### Mae trefniadau gwaith anffurfiol yn ysgogi gwelliant ond maent hefyd yn cyflwyno risgiau wrth i bwysau ychwanegol gael eu gosod ar adnoddau pobl

87 Cafwyd llwyddiannau nodedig yn ystod oes y Cynllun Rheoli Asedau cyfredol. Mae wedi llywio'r gwaith o gyfuno gweithgareddau swyddfa; wedi sicrhau cyfleuster i gymryd lle adeilad Afan Lido a ddifrodwyd gan dân; wedi nodi ffyrdd mwy effeithlon o ddarparu'r gwasanaeth llyfrgell; wedi cefnogi'r Rhaglen Gwella Ysgolion Strategol; wedi rhesymoli'r portffolio o ddepos ac wedi cefnogi cynlluniau i ailddatblygu Neuadd Gwyn yng Nghastell-nedd.

88 Mae’r Cynllun Rheoli Asedau yn nodi bod pwysau sylweddol ar adnoddau pobl ac erbyn hyn dim ond un gweithiwr eiddo proffesiynol ac un aelod arall o staff dynodedig sydd i wneud gwaith rheoli asedau corfforaethol. Mae’r Cyngor yn dibynnu ar y swyddog eiddo corfforaethol i reoli a goruchwylio dull corfforaethol o reoli tir ac adeiladau. Rôl y swyddog eiddo yw rhwydweithio â gwasanaethau sy’n dal eiddo er mwyn meithrin dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau o ran eiddo.

89 Cynorthwyir y swyddog eiddo gan Weithgor Rheoli Asedau Strategol a fu ar waith ers 2011. Mae’r gweithgor yn cyfarfod yn ôl yr angen pan fydd angen gwneud penderfyniadau ynghylch eiddo neu pan gaiff cyfarfodydd eu galw gan y swyddog eiddo, ddwywaith y flwyddyn fel arfer. Nid yw’r gweithgor wedi’i gyfansoddi’n ffurfiol ac, felly, nid oes ganddo unrhyw gylch gorchwyl. Diben y gweithgor yw cydgysylltu cynlluniau ar gyfer asedau os nad oes cynlluniau ar gyfer dosbarthiadau o asedau neu gynlluniau rheoli asedau gwasanaethau. Hyd yma mae’r trefniant hwn wedi gweithio’n dda ac mae arfer wedi creu diwylliant corfforaethol cryf o waith cydweithredol a chydgysylltiedig ar faterion sy’n ymwneud ag eiddo. Ymhlith y cynrychiolwyr sy’n mynd i gyfarfodydd y gweithgor mae prif swyddogion sy’n gyfrifol am dechnoleg gwybodaeth, priffyrdd a’r fflyd a chynrychiolwyr gwasanaethau perthnasol.

90 Hefyd, mae gan y swyddog eiddo gysylltiadau â byrddau rhaglenni trawsnewidiol y Cyngor, er enghraifft, y Bwrdd Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion lle mae gwaith cynllunio strategol mewn perthynas ag eiddo wedi bod yn rhan annatod o’r broses. Mae’r byrddau yn cynnwys swyddogion perthnasol ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch eiddo. Mae hyn wedi’i gwneud yn bosibl i benderfyniadau ynghylch eiddo gael eu gwneud yng nghyd-destun cynllunio ac ailfodelu gwasanaethau.

## Mae’r Cyngor wedi defnyddio asedau eiddo i gefnogi gweithgarwch cydweithredol ac wedi nodi’r eiddo sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ynghylch cadw neu waredu eiddo yn y dyfodol

91 Mae’r Cyngor wedi cynnal Adolygiad o Adeiladau Cymunedol y cyflwynwyd adroddiad arno i’r Bwrdd Cabinet Adfywio Economaidd a Chymunedol ym mis Rhagfyr 2013. Mae’r adolygiad hwn yn cefnogi cynllun sy’n trefnu’r fwrdeistref sirol yn chwe ardal ddaearyddol. Ar gyfer pob un o’r ardaloedd hyn, mae dau gynllun pellach wedi’u llunio sy’n nodi’r eiddo sy’n eiddo i’r Cyngor neu a feddiennir ganddo ac eiddo cyhoeddus arall sydd wedi’u cysylltu ar hyn o bryd ar gronfa ddata eiddo’r Cyngor.

92 Mae’r adolygiad hwn wedi helpu i nodi cyfleoedd i rannu adeiladau ar gyfer darparu gwasanaethau nid yn unig yn fewnol, ar draws gwasanaethau’r Cyngor, ond hefyd â chyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol eraill megis 85 o staff gofal cymdeithasol oedolion sy’n gweithio i Gastell-nedd Port Talbot a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a gydleolwyd yn ddiweddar ac sydd bellach yn gweithio ochr yn ochr â’i gilydd yng Nghanolfan Adnoddau Cimla. Mae adeiladau hefyd yn cael eu rhannu gan dri o bartneriaid y Cyngor sy’n ymwneud â gwasanaeth Mabwysiadu Bae’r Gorllewin. Yn ystod 2014 trosglwyddodd y Cyngor eiddo i grwpiau cymunedol hefyd fel ffordd o helpu pobl leol i ddarparu gwasanaethau lleol.

| Cynigion ar gyfer Gwella - Rheoli Asedau | |
|---|---|
| **C13** | Diweddaru'r Cynllun Rheoli Asedau fel ei fod yn gweithredu fel pwynt cyfeirio am y pum mlynedd nesaf ac yn cyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau cyfredol a nodir yng Nghynllun Gwella Corfforaethol y Cyngor. |
| **C14** | Sicrhau y caiff ystyriaeth o waith rheoli asedau ei chynnwys yng Nghynlluniau Busnes Gwasanaethau. |
| **C15** | Ffurfioli'r trefniadau ar gyfer y Gweithgor Rheoli Asedau Strategol drwy wneud y canlynol:<br>• llunio cylch gorchwyl a nodi arferion gwaith corfforaethol disgwyliedig (yn seiliedig ar arfer presennol); a<br>• llunio rhaglen waith flynyddol ddangosol a gwneud nodiadau o benderfyniadau a wnaed gan y Grŵp. |

## Nid yw effaith llai o adnoddau ar y gwaith o gefnogi a datblygu technoleg gwybodaeth yn y dyfodol wedi'i hasesu ac mae gwendidau mewn trefniadau rheoli gwybodaeth yn peri risg i enw da'r Cyngor

### Er y gall y Cyngor ddangos ei fod wedi datblygu ei dechnoleg gwybodaeth nid yw wedi ystyried effaith llai o adnoddau yn y dyfodol yn llawn

93 Mae'n rhaid gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg er mwyn trawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella canlyniadau ar gyfer dinasyddion a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. Gall technoleg gefnogi ffyrdd gwahanol o weithio, darparu gwasanaethau ac ymgysylltu â dinasyddion sy'n galluogi cynghorau i gyflawni mwy am lai o arian. Mae'r ffordd y caiff technoleg ei chyflenwi a'i rheoli yn cael effaith uniongyrchol ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd gwaith a wneir ym mhob rhan o'r Cyngor ac mae'n effeithio ar bron bob un o weithwyr y Cyngor. Mae'r adran hon yn nodi ein canfyddiadau ynghylch y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli ei dechnoleg gwybodaeth (TG).

94 Gwnaethom adolygu'r gwasanaeth hwn gyntaf yn 2011 pan nodwyd bod y Cyngor wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w seilwaith technoleg a'i fod wedi rhoi'r seiliau technoleg a'r trefniadau llywodraethu ar waith i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a thrawsnewid y gwasanaeth.

95 Ers ein hadolygiad yn 2011, mae arbedion wedi'u sicrhau drwy resymoli desgiau'r gwasanaeth TG a chontractau cymorth TG, gan roi seilwaith TG newydd yn lle un a oedd yn heneiddio a thrwy ddiswyddiadau gwirfoddol. Llwyddwyd i wneud hyn drwy leihau capasiti, sgiliau a phrofiad dros y tair blynedd diwethaf, sy'n golygu bod 105 o staff wedi bod yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth yn ystod 2013-14 o gymharu â 120 yn 2011-12. Disgwylir i nifer y staff gael ei leihau ymhellach yn ystod 2014-15 er mwyn cyflawni targedau arbedion, a disgwylir y bydd y gwasanaeth yn cyflogi 20 y cant yn llai o staff erbyn 2015 o gymharu â 2011-12.

96 Ar hyn o bryd mae adran gwasanaeth TG y Cyngor wedi'i rhannu'n bedair, sef:

- gwasanaethau cwsmeriaid - datblygu cymwysiadau a chymorth;
- seilwaith – seilwaith, rhwydweithio a theleffoni;
- cysylltiadau busnes - desg gwasanaeth, hyfforddiant a chyllideb; a
- diogelwch busnes – rheoli gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth.

97 Bu'r adran TG yn cyflawni amcanion gwasanaeth-benodol ar gyfer 2013-14. Ymhlith y cyflawniadau allweddol roedd y canlynol:

- ymestyn y seilwaith diwifr i gynnwys pob ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot drwy osod tua 1,000 o bwyntiau mynediad diwifr a switshis rhwydwaith;
- datblygu system cynllunio at argyfwng fewnol ar gyfer yr Uned Cydnerthu ar y Cyd gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill yn Ne-orllewin Cymru gan gynnwys Cyngor Abertawe;
- ailgyflunio desg y gwasanaeth TG gyda gwell system deleffoni er mwyn helpu i sicrhau y caiff mwy o alwadau eu derbyn y tro cyntaf;

- datblygu cymwysiadau symudol er mwyn rhoi cyfarwyddiadau gwaith i grefftwyr maes y Cyngor; a
- rhoi teclynnau iPad i aelodau, er i rai aelodau ddweud wrthym eu bod o'r farn y gellid gwella'r hyfforddiant a ddarperir ar sut i'w defnyddio.

98 Penderfynir ar y blaenoriaethau ar gyfer datblygu systemau TG newydd ar lefel swyddog gan ystyried yr angen i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol a'r adnoddau sydd ar gael. Yn ddiweddar adolygodd y Cyngor ei drefniadau cynllun strategol a chyflawni TG ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg. Gallai'r strategaeth ddiwygiedig sy'n datblygu gefnogi gwelliant ond nid yw wedi datrys effaith adnoddau TG sy'n parhau i leihau ar y gallu i gefnogi a datblygu systemau yn y dyfodol eto.

99 Prin yw'r wybodaeth am berfformiad ac roedd yn canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad desg y gwasanaeth TG. Mae 'cerdyn sgorio' perfformiad gwasanaethau wrthi'n cael ei ddatblygu fel rhan o ddatblygiad corfforaethol ehangach systemau gwerthuso perfformiad.

## Mae gwendidau mewn trefniadau rheoli gwybodaeth yn peri risg i enw da'r Cyngor

100 Mae gan y Cyngor amrywiaeth o rwymedigaethau cyfreithiol penodol ar gyfer trin y wybodaeth bersonol a ddelir ganddo am unigolion ac ymdrin â cheisiadau am wybodaeth. Yn yr adran hon rydym yn nodi ein canfyddiadau ynghylch y trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r rhwymedigaethau hyn.

101 Gwnaethom adolygu'r trefniadau rheoli gwybodaeth gyntaf ym mis Medi 2011 pan nodwyd bod y Cyngor yn ymwybodol o'r problemau yr oedd angen mynd i'r afael â hwy a bod cynlluniau ar waith i wella trefniadau a pherfformiad ymhellach. Yr adeg honno gwnaethom bedwar cynnig ar gyfer gwella. Roedd y Cyngor wedi gweithredu dau o'r cynigion hyn erbyn adeg cynnal yr asesiad hwn ac rydym yn deall ei fod wedi penderfynu derbyn y risg a nodwyd gennym o ran agosrwydd yr adeiladau yr oedd yn eu defnyddio i sicrhau parhad busnes. Yn 2011 gwnaethom gynnig hefyd y dylai'r Cyngor fynd i'r afael â phroblemau o ran diffyg cydymffurfiaeth a oedd yn gysylltiedig â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth oherwydd, ar y pryd, roedd ei gofnodion yn dangos mai dim ond i 92 y cant o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr oedd wedi ymateb o fewn y terfyn amser statudol. Dywedwyd wrthym fod swyddogion o'r farn nad oedd methu â bodloni terfynau amser statudol yn broblem mwyach. Fodd bynnag, ni roddodd y Cyngor sicrwydd i ni fod hynny'n wir.

102 Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yw awdurdod annibynnol y Deyrnas Unedig a sefydlwyd i amddiffyn hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd, gan hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ymhlith cyrff cyhoeddus a phreifatrwydd data ar gyfer unigolion.

103 Ar ddechrau 2014 gwahoddodd y Cyngor yr ICO i gynnal archwiliad er mwyn adolygu trefniadau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor. Er i'r ICO nodi rhai meysydd o arfer da rhoddodd ei ail sgôr isaf iddo, gan farnu bod trefniadau'r Cyngor yn rhoi 'fawr ddim sicrwydd'. Nododd yr ICO fod angen gwella'r prosesau presennol mewn sawl maes, sef:

- gwella goruchwyliaeth gorfforaethol, trefniadau llywodraethu, rolau a chyfrifoldebau o ran sicrwydd a chydymffurfiaeth ym maes llywodraethu gwybodaeth;
- yr angen am hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r maes;
- yr angen i wella trefniadau ar gyfer ymdrin â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth; a'r
- angen i wella trefniadau ar gyfer ymdrin â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru a Phrotocolau Rhannu Gwybodaeth â thrydydd partïon.

104 Mae'r Cyngor wrthi'n rhoi cynllun gweithredu ar waith y bwriedir iddo fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan yr ICO. Rydym yn deall nad oes fawr ddim cynnydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r angen i ddarparu hyfforddiant cyson ar lywodraethu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r maes. Ynghyd â diffyg eglurder ar ran y Cyngor ynghylch pa aelodau o staff a ddylai gael hyfforddiant o'r fath a sut y caiff ei ddarparu, mae hyn yn risg barhaus.

105 Mae swyddogion wedi drafftio Strategaeth Wybodaeth a nodant fod fersiwn terfynol y strategaeth hon yn annhebygol o gael ei gwblhau i'w ystyried gan yr aelodau tan Hydref 2014 ar y cynharaf. Nid yw'r drafft a welwyd gennym yn cyfeirio eto at y ffordd y dylai'r Cyngor farnu llwyddiant y strategaeth os caiff ei mabwysiadu.

106 Nid yw'r Cyngor yn gwerthuso ei berfformiad o ran ymdrin â cheisiadau o dan y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Yn unig fesur a gesglir ac a gofnodir yn fewnol yw nifer y cwynion ynghylch ymdrin â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data. Cofnodir ceisiadau ar gronfa ddata fewnol gan staff yn yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol. Gall Cyfarwyddiaethau'r Cyngor ddiweddaru'r gronfa ddata i nodi cynnydd o ran ceisiadau am wybodaeth. Dywedwyd wrthym fod swyddogion am lunio rhyw fath o adroddiad blynyddol ar nifer y ceisiadau a geir er nad yw hyn yn digwydd eto.

107 Gwnaethom hefyd nodi gwendidau o ran ystyried arfer disgwyliedig ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol. Ni ddangoswyd fawr ddim ymwybyddiaeth o berthnasedd gofynion 'Caldicott'[1] i faes Gofal Cymdeithasol, ac nid yw'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cwblhau hunanasesiad er mwyn nodi llinell sylfaen yn erbyn gofynion Caldicott.

1 Edrychodd Adroddiad Caldicott ar weithgarwch llywodraethu gwybodaeth yn y sector iechyd a sefydlodd egwyddorion arweiniol ar gyfer rheoli gwybodaeth bersonol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru god ymarfer anstatudol fel canllawiau i'r rhai sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn 2005 a oedd yn seiliedig ar weithredu'r egwyddorion yn Adroddiad Caldicott.

108 Mae cofrestr risg Gwybodaeth wedi'i chwblhau er mwyn nodi risgiau gwybodaeth corfforaethol ond gellir ei hatgyfnerthu ymhellach er mwyn ymgorffori'n llawn y risgiau gwybodaeth hynny o feysydd gwasanaeth y Cyngor. Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar waith rheoli gwybodaeth i Fforwm Diogelwch Gwybodaeth y Cyngor yn datblygu a gellir eu hatgyfnerthu ymhellach yn unol â dull newydd y Cyngor o reoli perfformiad. Cyflwynir adroddiad diogelu data misol i'r Fforwm Diogelwch Gwybodaeth er mwyn iddo graffu arno. Mae aelodaeth y fforwm wedi'i hymestyn er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o bob maes gwasanaeth, er enghraifft, o'r Adran Addysg a'r Adran Cymunedau, ac er mwyn sicrhau bod aelodau o staff ar lefel uwch swyddogion briodol yn mynd i gyfarfodydd.

109 Ni ddywed Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor fawr ddim am lywodraethu gwybodaeth na rheoli gwybodaeth a dylai gynnwys mwy o fanylion. Ystyrir bod llunio adroddiad rheoli a llywodraethu gwybodaeth blynyddol yn arfer da a dylid ei lunio er mwyn i bwyllgorau'r Cyngor graffu arno a'i herio.

| Cynigion ar gyfer Gwella – Technoleg Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth | |
|---|---|
| **C16** | Sicrhau bod y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau sy'n deillio o'r faith bod llai o adnoddau staff. |
| **C17** | Llunio'r fersiwn terfynol o Strategaeth Wybodaeth y Cyngor a'i gyfleu i bob aelod o staff. |
| **C18** | Rhoi adroddiad blynyddol ar faterion sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth a llywodraethu gwybodaeth i'r aelodau er mwyn eu galluogi i werthuso perfformiad ac effeithiolrwydd trefniadau. |

## Mae'r Cyngor yn cydweithredu ag amrywiaeth o bartneriaid er mwyn sicrhau gwelliant a chynnal gwasanaethau ond nid oes ganddo ddull cyson o werthuso'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni

### Mae'r Cyngor yn cydweithredu ar draws amrywiaeth eang o weithgareddau er mwyn cyflawni blaenoriaethau a rennir

110 Mae'r Cyngor yn cydweithredu ag amrywiaeth eang o bartneriaid – gan gynnwys asiantaethau statudol a gwirfoddol – er mwyn sefydlu dulliau strategol o weithredu a threfniadau ar gyfer darparu gwasanaethau ar y cyd megis gofal cymdeithasol a diogelwch cymunedol. Mae gwaith mwy lleol gyda chymunedau a Chynghorau Cymuned wedi helpu i sicrhau parhad gwasanaethau y gallai fod wedi bod yn ofynnol i'r Cyngor eu torri.

111 Mae'r BGLl yn cynnwys y Cyngor a 12 o bartneriaid eraill sydd â buddiant yn y maes ac adnoddau i'w cyfrannu at ddiwallu anghenion lleol. Mae'r partneriaid yn cynnwys cyrff statudol megis yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, y sector preifat, y sector gwirfoddol a phartneriaid eraill megis y coleg lleol a'r ganolfan waith leol. Ym mis Gorffennaf 2013 cyhoeddodd y BGLl ei Gynllun Integredig Sengl, sy'n nodi gweledigaeth y BGLl i greu 'Castell-nedd Port Talbot lle mae gan bawb gyfle cyfartal i fod yn iachach, yn hapusach, yn fwy diogel a ffyniannus'. Drwy nodi amrywiaeth o flaenoriaethau a rennir a chamau gweithredu arfaethedig yn glir mae'r Cynllun Integredig Sengl yn rhoi darlun clir o'r hyn y mae'r partneriaid yn ceisio ei gyflawni.

112 Mae'r Cyngor hefyd wedi cydweithredu â sefydliadau eraill er mwyn sicrhau neu gynnal gwelliannau i wasanaethau:

- Sefydlu Ymddiriedolaeth Hamdden Cymunedol Celtic yn 2002: llunio contract â'r sefydliad ar gyfer rheoli a rhedeg canolfannau hamdden a phyllau nofio. Y nod oedd cynnal gwasanaethau am gost is.
- Ymgynghori â thenantiaid a arweiniodd at greu Cartrefi NPT fel landlord cymdeithasol cofrestredig annibynnol er mwyn sicrhau bod cartrefi yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.
- Trosglwyddo gwasanaethau gofal preswyl (gan gynnwys staff a chartrefi gofal) i Grŵp Gwalia yn 2012 o dan gontract 25 mlynedd. Gwnaed hyn er mwyn gwella amrywiaeth a natur y gwasanaethau a ddarperir, yn ogystal â gweithredu rhaglen i ddisodli hen adeiladau anaddas ag adeiladau pwrpasol sy'n cyrraedd safonau modern.

113 Mae trefniadau Cartrefi NPT a Grŵp Gwalia a sefydlwyd yn ddiweddar yn glir ynghylch yr hyn y bwriedir i'r cydweithredu ei gyflawni. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi adolygu ei drefniadau cytundebol ag Ymddiriedolaeth Hamdden Cymunedol Celtic. Sylweddolodd, er bod y bwriadau cychwynnol yn glir, oherwydd yr amser a oedd wedi mynd heibio, pwysau newydd a chyfleusterau newydd a ddatblygwyd gan y Cyngor, fod angen iddo sefydlu strategaeth glir ar gyfer gweithgarwch hamdden a gweithgarwch diwylliannol yn yr ardal cyn y byddai'n briodol llunio contract newydd â'r Ymddiriedolaeth. Yn ystod 2014, bu'r Cyngor yn datblygu ei Strategaeth Hamdden a Diwylliannol er mwyn darparu fframwaith er mwyn helpu i gyflawni ei flaenoriaethau yn y dyfodol.

114 Mae'r Cyngor yn aelod o Raglen Gydweithredol Bae'r Gorllewin, sy'n cynnwys tri awdurdod lleol (Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe) Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, y Gwasanaeth Prawf a chynrychiolwyr darparwyr gwasanaethau sy'n cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed. Nod y rhaglen gydweithredol yw nodi lle mae gweithio ar lefel ranbarthol er budd dinasyddion ac ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae'r rhaglen gydweithredol yn gweithio mewn nifer o ffyrdd i sicrhau bod gwasanaethau allweddol yn cael eu darparu'n fwy effeithlon.  Rhoddir dwy enghraifft isod:

- mae Bwrdd Diogelu Plant a Bwrdd Diogelu Oedolion Bae'r Gorllewin wedi'u sefydlu er mwyn atgyfnerthu trefniadau drwy hyrwyddo gwaith amlasiantaeth a chysondeb o ran safonau ledled y rhanbarth; a
- sefydlwyd Bwrdd Rheoli Tîm Troseddau Ieuenctid Bae'r Gorllewin ym mis Mai 2014 i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth ar y cyd er mwyn cynnal a datblygu gwasanaethau ledled y rhanbarth a lleihau costau cyffredinol.

115 Mae gan y Cyngor gydberthynas waith effeithol a hirsefydledig â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot. Mae cryfder y bartneriaeth yn seiliedig ar 'ffordd o weithio' sydd wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd. Bydd angen i'r Cyngor sicrhau, yng nghyd-destun newidiadau mewn personél a heriau ariannol, fod cryfderau'r cydberthnasau gwaith yn cael eu cynnal.

| Arddangosyn 1: Arfer da o ran cysylltu â'r sector gwirfoddol |
|---|
| During the budget consultation for 2014-15 the Council engaged with the CVS in the Yn ystod yr ymgynghoriad cyllidebol ar gyfer 2014-15 bu'r Cyngor yn gweithio gyda'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol er mwyn datblygu meini prawf ar gyfer asesu'r gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau gwirfoddol fel ffordd o benderfynu ar y cyllid a ddarperir yn y dyfodol yng nghyd-destun yr arbedion ariannol yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor eu gwneud.<br><br>Roedd y broses o flaenoriaethu cyllid yn seiliedig ar ba mor amlwg oedd cyfraniad sefydliad gwirfoddol at gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar y cyd rhwng y sector gwirfoddol a'r Cyngor er mwyn asesu a oedd y cyfraniadau yn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor yn llawn neu'n rhannol neu'n methu â'u cyflawni o gwbl. Roedd y rhai nad oeddent yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor yn wynebu'r posibilrwydd y câi eu cyllid ei dynnu'n ôl. Roedd y rhai a oedd yn cyflawni'r blaenoriaethau yn llawn neu'n rhannol yn wynebu'r posibilrwydd y câi eu cyllid ei leihau yn gymesur â'r cyfraniad a oedd yn cael ei wneud.<br><br>Er ei bod yn broses heriol, ategodd y broses gwneud penderfyniadau drwy sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu i'r sefydliadau hynny yn y sector gwirfoddol y gellid gweld eu bod yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. |

116 Ar lefel leol mae prosesau ymgynghori cyllidebol wedi arwain at gynnwys cymunedau a rhai cynghorau cymuned yn y gwaith o reoli a darparu gwasanaethau lleol megis y canlynol:

- y Cyngor Cymuned yn darparu patrol croesi ysgol yng Nghastell-nedd;
- gwaith rheoli canolfan gymunedol yn cael ei wneud gan gymuned leol; a
- gwasanaeth llyfrgell yn cael ei reoli gan gymuned leol.

117 Mae cyfranogiad lleol o'r fath wedi tueddu i fod yn adweithiol hyd yma yng nghyd-destun mynd i'r afael â phwysau cyllidebol uniongyrchol. Yn wyneb heriau cyllidebol sylweddol mae'r Cyngor wedi parhau i ymgysylltu â'i gymunedau ac mae cyfle i'r Cyngor weithio gyda'i bartneriaid allweddol megis y Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol er mwyn mabwysiadu dull mwy strategol o weithredu a helpu i feithrin capasiti o fewn cymunedau.

## Mae'r Cyngor yn monitro gweithgarwch cydweithredol ond mae cyfyngiadau o ran y wybodaeth a gyflwynir am yr adnoddau a ddefnyddir yn golygu na all werthuso effeithiolrwydd na chynaliadwyedd rhai partneriaethau yn llawn

118 Ym mis Ebrill 2014 cyhoeddodd y BGLl ei adroddiad blynyddol cyntaf ar gynnydd yn 2013-14 yn erbyn y pedair blaenoriaeth drawsbynciol y cytunwyd arnynt gan bartneriaid a chan gyfeirio at y gweithgarwch partneriaeth ehangach a oedd wedi datblygu yn ystod y cyfnod. Mae'r adroddiad, sef Adroddiad Blynyddol Cynllun Integredig Sengl Castell-nedd Port Talbot 2013-14 yn esbonio canlyniadau gweithgarwch yn ystod y cyfnod ac yn defnyddio dangosyddion penodol (megis data arolygon iechyd) er mwyn dangos tueddiadau mewn meysydd gweithgarwch â blaenoriaeth. Hefyd ym mis Ebrill, cytunodd y Cyngor ar drefniadau newydd er mwyn i'w bwyllgorau craffu chwarae rôl fwy gweithredol o ran adolygu perfformiad yn ystod y flwyddyn.

119 Mater cyffredin a godwyd gan y rhai y gwnaethom siarad â hwy yn ystod yr asesiad hwn oedd cynaliadwyedd rhai trefniadau cydweithredol yng nghyd-destun y pwysau ariannol a'r lleihad yn nifer y staff a wynebir gan wasanaethau cyhoeddus a'r rhai sy'n dibynnu ar arian sector cyhoeddus. Ar hyn o bryd, er ei fod yn cynnwys nifer o fesurau y byddem yn disgwyl eu gweld ar waith, nid yw trefniadau adrodd y Cynllun Integredig Sengl yn rhoi fawr ddim gwybodaeth am yr holl adnoddau sy'n cael eu defnyddio i gyflawni gweithgareddau. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd i'r BGLl a sefydliadau partner unigol gael darlun clir o effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ffrydiau cyflawni. Mae'r Cyngor wrthi'n atgyfnerthu ei drefniadau mewnol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad ac mae'r fframwaith y mae'n ei fabwysiadu yn darparu model ar gyfer mireinio trefniadau adrodd y Cynllun Integredig Sengl ymhellach.

120 Mae’r Cyngor hefyd wedi bod yn monitro’r modd y caiff gweithgareddau eraill eu cyflawni gan Cartrefi NPT, Grŵp Gwalia ac Ymddiriedolaeth Hamdden Cymunedol Celtic. Mae’r hyn a welsom o ran cyflwyno adroddiadau monitro i bwyllgorau craffu yn awgrymu mai prin iawn yw’r prosesau herio ac ymddengys fod lle i’r Cyngor a’r darparwyr gwasanaethau fyfyrio ar natur y wybodaeth sy’n cael ei darparu a pha mor dda y mae’n eu galluogi i werthuso pa mor effeithiol y maent yn cael eu darparu.

| Cynigion ar gyfer Gwella - cydweithio | |
|---|---|
| **C19** | Gweithio gyda phartneriaid allweddol er mwyn sefydlu rhaglen i feithrin capasiti cymunedol er mwyn cefnogi dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau. |
| **C20** | Datblygu trefniadau cyflwyno adroddiadau ymhellach fel y gellir gwerthuso effeithiolrwydd a chynaliadwyedd gweithgarwch cydweithredol. |

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd A L Thomas
Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Y Ganolfan Ddinesig
Port Talbot
SA13 1PJ

Annwyl Gynghorydd Thomas

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 29 Medi 2014, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 26 Medi 2014, a chyflwynir adroddiad manylach ar gyfer swyddogion maes o law.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r broses o baratoi'r cyfrifon wedi gwella'n sylweddol, er i ymadawiad staff o dan y cynllun diswyddo gwirfoddol effeithio ar rai cyfarwyddiaethau eleni. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion ac aelodau drwy ein cyfarfodydd rheolaidd a'r Pwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau ein bod yn adeiladu ar y gwelliant hwn mewn perfformiad.

**Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, er bod meysydd i'w gwella wedi'u nodi.**

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon nad oes unrhyw faterion a fyddai'n effeithio ar y farn archwilio ddiamod a roddwyd ar ddatganiadau cyfrifon 2013-14 ond mae yna feysydd lle y gellir gwneud gwelliannau. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol ac Asesiad Corfforaethol 2014 yn fuan. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd er mwyn iddo wella ei berfformiad.

Yn y dyfodol, bydd i'r sefyllfa ariannol heriol iawn sy'n wynebu pob corff llywodraeth leol yng Nghymru oblygiadau sylweddol. Cyn y setliad cyllidebol diweddaraf, nododd y Cyngor fod bwlch o £38.3 miliwn yn y gyllideb ar gyfer 2014-18 a bod angen sicrhau £17.3 miliwn o'r arbedion hyn yn 2014-15. Er bod setliad cyllidebol diweddar y Cyngor yn well na'r disgwyl, mae angen gwneud arbedion sylweddol o hyd yn ystod y tair blynedd nesaf.

Mae'r Cyngor wedi bod yn rhagweithiol wrth reoli ei fwlch ariannu cynyddol hyd yma ac wedi cydnabod bod angen iddo ystyried newidiadau sylfaenol tymor hwy i'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn darparu ei wasanaethau. Mae'r Cyngor yn sylweddoli y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd. Mae'n bwysig bod y Blaengynllun Ariannol yn cael ei fonitro'n ofalus gan swyddogion ac Aelodau a'i fod wedi'i gysylltu'n glir ag arbedion cyfarwyddiaethau, cynlluniau darparu gwasanaethau ac ati, ac yr ymdrinnir ag unrhyw lithriant yn gyflym ac yn effeithiol er mwyn i dargedau ar gyfer arbedion gael eu cyflawni.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2014.

**Nododd y gwaith o ardystio ceisiadau am grant a ffurflenni grant a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol feysydd i'w gwella y disgwyliwn weld gweithredu arnynt ar gyfer archwiliad o grantiau 2013-14**

Rydym wedi bod yn nodi ers nifer o flynyddoedd bod angen gwella'r prosesau sydd ar waith ar gyfer rheoli a pharatoi ceisiadau am grant. Mae swyddogion wedi rhoi prosesau ar waith ond ni chydymffurfir â'r rhain bob amser. Mae ein harchwiliad o grantiau'r Cyngor ar gyfer 2013-14 bellach wedi dechrau ac rydym yn disgwyl y bydd prosesau gwell ar waith. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniad ein gwaith yn gynnar yn y flwyddyn newydd pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i’r ffi archwilio ariannol fod yn unol â’r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o’r Archwiliad Ariannol Blynyddol.

Yn gywir

Richard Harries
Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

18 Tachwedd 2014

cc. Steve Phillips, Prif Weithredwr
Hywel Jenkins, Cyfarwyddwr Cyllid

# Atodiad 3 – Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2014-15, sef:

| Amcanion Gwella 2014-15 |
|---|
| **'Dyfodol Mwy Diogel a Llewyrchus'**<br>Gwella canlyniadau i blant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal drwy wella perfformiad Adran Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc y Cyngor. |
| **'Ysgolion Gwell, Rhagolygon Gwell'**<br>Codi safonau addysgol a chyrhaeddiad yr holl bobl ifanc. |
| **'Hyrwyddo Dewis ac Annibyniaeth'**<br>Cynyddu i'r eithaf nifer yr oedolion sy'n gallu byw'n annibynnol gyda chefnogaeth neu hebddi yn eu cartrefi o ddewis yn eu cymunedau. |
| **'Ffyniant i Bawb'**<br>Cefnogi canol ein trefi a'n cymunedau a buddsoddi ynddynt i hyrwyddo twf economaidd, adfywio a chynaliadwyedd i gynyddu cyfleoedd swyddi i'r eithaf a gwella mynediad i gyflogaeth. |
| **'Arbed, Ailddefnyddio, Ailgylchu'**<br>Cynyddu canran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu a'i gompostio. |
| **'Gwell, Symlach, Rhatach'**<br>Gwella mynediad cwsmeriaid/dinasyddion i wasanaethau a swyddogaethau a ddarperir gan y cyngor, neu ar ran y cyngor, a gwella effeithlonrwydd y gwasanaethau a'r swyddogaethau hynny. |

# Atodiad 4 – Tystysgrifau cydymffurfiaeth

Mae'n ofynnol i'r cyngor gynhyrchu cynlluniau sy'n cyfeirio at y dyfodol gan nodi ei amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn i ddod a llunio adroddiadau am ei berfformiad yn y flwyddyn flaenorol. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswydd i archwilio'r dogfennau hyn ac ardystio a yw'r cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd.

Ym mis Mehefin a mis Tachwedd 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrifau yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol 2009, ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigon i gyflawni ei ddyletswyddau.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk